

ECO'R WYDDFA

RHIF 365

EBRILL 2009

PRIS 50c

LLONGYFARCHIADAU!

Enillwyr 'Cân i Gymru' eleni yw Lowri W. Roberts, athrawes o Ysgol Brynrefail ac Elfed Morris, athro o Ddeiniolen. Mae'r ddau wedi cyd-weithio â'i gilydd nifer o weithiau o'r blaen, ac wedi dod yn agos i'r brig yn y gystadleuaeth. Eleni, dyma gyrraedd y pinacle, a chlod haeddianol y beirniaid a gwobr ariannol sylweddol. Gyda dymuniadau gorau'r *Eco* i'r ddau am y dyfodol.



GORSAF DYWYDD YSGOL LLANRUG

Mae Cyngorau Llundain wedi ariannu rhwydwaith o orsafoedd tywydd ar draws Ynysoedd Prydain fel rhan o brosiect amgylcheddol i ysgolion cynradd ac uwchradd yn Ne Ddwyrain Lloegr.

Prif amcan y cynllun yma gan gyngorau Llundain yw mesur a chofnodi newidiadau tywydd a hinsawdd dros ardal cang, a'i dadansoddi drwy fasdata cenedlaethol. Mae'r pynciau amgylcheddol o fewn y Cwricwlwm Newydd yn cael sylw mawr mewn ysgolion, gyda'r pwyslais ar bolisiau sy'n lleihau nwyon Co2 yn flaenoriaeth yn y cwricwlwm daearyddiaeth ac fel elfen o'r ABaCh 'dinasyddiaeth fyd eang'.

Gynradd ers 1995 yn cofnodi tymheredd, glawiad, a gwynt, ond mae'r offer newydd yn llawer gwell. Prif rinweddau'r orsaf newydd yw'r amrywiaeth o synwryddion electronig i fesur yr holl elfennau amgylcheddol. Mae'r orsaf hefyd yn cynnig rhagolygon o'r tywydd yn lleol dros gyfnod o wythnos.

Yr hyn sydd yn unigryw yn y prosiect yw bod modd i unrhyw ysgol neu unigolyn gysylltu yn uniongyrchol gyda'r safleoedd a gweld y data yn fyw ar sgrin gyfrifiadur. Mae'r cwmni hefyd yn gosod gwe-gamra ar y to i ddangos llun byw o Ddyffryn Peris a'r Wyddfa fel rhan o'r data Bydd y lluniau a'r data'n uwchraddio bob munud ar sgrin.

Mae modd i chithau fel darllenwyr gysylltu gyda'r wefan ar eich cyfrifiadur ar y cyfeiriad ar welod y dudalen hon. (Gallwch gael mynediad drwy ddefnyddio'r safle ysgol.)

(Mae'n bwysig defnyddio'r cyfeiriad uchod i fynd yn uniongyrchol i safle'r ysgol. Nid yw yn bosibl cael mynediad trwy 'Google' gan ein bod yn blocio mynediad allanol.)

Os ydych eisiau cysylltu gyda'r rhwydwaith o orsafoedd heb fynd drwy safle'r ysgol dyma'r cyfeiriad:

<http://weather.atomwide.com>

Ewch i'r rhestr y gorsafoedd a chlicio ar Caernarfon.

Yn ystod y misoedd nesaf rydym am gymharu data a gofnodwyd yn mis Mawrth 1995 gyda data o'r orsaf dywydd newydd newydd ar gyfer Mawrth 2008, i weld a oes yna unrhyw sail i'r ddamcaniaeth fod


newid yn y tymhorau.

Mae'r lluniau o'r wefan yn dangos y gwahanol data sydd yn dod o'r synwryddion.

Mae'r disgyblion yn defnyddio gorsaf dywydd fechan hefyd i wneud gwaith maes neu astudio corneli o fewn ffiniau'r ysgol. Mae'n anodd deall fod cymaint o wahaniaeth tymheredd rhwng yr ardaloedd cysgodol ar y buarth ar ardaloedd hynny sy'n wynebu'r haul


e.e. Mae'r cennin Pedr yn blodeuo tua pythefnos o flaen y rhai sydd yn tyfu yn yr ardaloedd cysgodol.

Mae modd cario'r orsaf dywydd fechan yn eich poced i wahanol safleoedd ac yna recordio data tywydd wrth fynd am dro. Gellir lawr lwytho'r data i gyfrifiadur er mwyn dadansoddi'r wybodaeth.



Fis Ionawr 2009 cafodd Ysgol Gynradd Llanrug gynnig i ymuno gyda'r cynllun, a chytunodd y grid cenedlaethol ar gyfer dysgu (NGFL) i noddi ac ariannu'r orsaf dywydd yn Llanrug. Mae gorsaf dywydd fechan wedi bod ar safle'r Ysgol

Panel solar sydd yn sicrhau trydan i'r synwryddion ac mae'r data yn trosglwyddo dros gyswllt radio i gyfrifiadur yn yr ysgol. Mae'r data yn trosglwyddo wedyn drwy'r Cyngor Sir i ganolfan fonitro'r cwmni yn Llundain.



<http://web.me.com/ysgolgynraddllanrug>

ECO'R WYDDFA

**RHIF 365
EBRILL 2009**

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i**

Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Ellis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Ellis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

GYM-Y-GLO: Mrs Iris Howlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minalt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL Ebrill 14eg

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU Ebrill 23ain

Dyddiad Gosod

SUL Ebrill 18, 5 y pnawn
Sefydliad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Ebrill	Ebrill 14 fan bellaf	23 Ebrill	Deiniolen		

Llythyr

Diolch am Godi Arian

Swyddfa Nyrsus Cymuned,
Ward Minffordd,
Penrhosgarnedd,
Bangor LL57 2PW
13/03/09

Annwyl Olygydd,
Rwyf yn ysgrifennu atoch i ofyn
os buasai yn bosibl imi drwy
dudalennau *Eco'r Wyddfa*,
ddiolch i'r gymuned, a
thrigolion cyfagos am eu
cefnogaeth a charedigrwydd
hael at ymdrech Bedwyr, Dylan
a Keith yr haf diwethaf o godi
arian.

Fe benderfynodd y tri bachgen
lleol yma godi arian at Ysbyty
Christie's ym Manceinion,

Uned Arennau yn Ysbyty
Gwynedd ac elusen lleol CLIC i
Blant gyda chanser neu
leukemia.

Penderfynodd Keith o Bryn
Cwm y Glo, godi'r arian at
elusen sydd yn agos i'w galon -
Elusen CLIC; a thrwy ei
ymdrech o feicio o Gaerdydd i
Ddoc Victoria yng
Nghaernarfon, fe gododd y
swm o £3,460. Mae'n rhaid
diolch hefyd i Bedwyr a Dylan
am eu hymdrechion hwythau i
godi arian i elusennau a
ddewiswyd ganddynt.

Rwyf yn hynod falch o Keith
am ei ymdrech a'i gefnogaeth at
yr elusen.

Diolch yn fawr iawn,
Eleri Fôn (nyrs plant a chanser
a liwcemia)

Panad dros blant y byd

Rydyn ni'n Achub y Plant  Wnewch chi?

Cynhaliwch de-barti, yfwrch de, achubwch fywyd

Eleni mae Achub y Plant yn
dathlu 90 mlynedd ers sefydlu'r
elusen. Cynhelir Wythnos
Achub y Plant rhwng 26 Ebrill -
2 Mai er mwyn codi cymaint o
arian â phosib er mwyn achub
bywydau miliynau o blant ar
draws y byd.

Mae bron i 10 miliwn o blant
yn marw cyn eu bod yn 5 oed.
Nid yw hyn yn dderbyniol.
Dyma eich cyfle i gynnal te-
parti i wneud gwahaniaeth i
fywydau y plant anghenus yma.

Mae'r her yn syml. Trefnwch
de-parti neu fore coffi a
gofynnwch i'ch
gwahoddedigion wneud
cyfraniad neu codwch bris teg
am y lluniaeth sydd ar gael, ac
yna anfonwch yr arian at Achub
y Plant. Drwy godi 60c neu fwy
am banded o de gall hynny helpu
i dalu am gyflenwad diwrnod o
bast cnau maethlon sy'n helpu i
gadw plentyn bach sy'n dioddef
o ddiffyg maeth yn fyw. Bydd £5
yn ddigon i frechu plentyn rhag
afiechydon a £25 yn talu am
rwydi mosgito i amddiffyn
teulu rhag malaria sy'n lladd
bron i 3,000 o blant o dan 5 oed
bod dydd.

Cofiwch y gall eich te parti
fod mor syml neu mor anturus
ag y dymunwch boed yn fore
coffi neu de-barti tanddwr neu
ar ben mynydd! Po fwyaf yr
achlysur y mwyaf o arian y
byddwch yn ei godi i gefnogi'r
gwaith pwysig yma.

Gallwch brynu setiau te,
cwpanau a soseri, tebotau a hyd
yn oed mygiau golff a garddio ar
thema arbennig drwy ymweld â

www.savethechildrenshop.co.uk.

Am fwy o wybodaeth ewch i'r
wefan

www.savethechildren.org.uk/goteap
otty neu ffoniwch Jess Evans yn
Swyddfa Achub y Plant yng
Nghaerdydd ar 029 20 345 224,
neu anfonwch e-bost at
j.evans@savethechildren.org.uk.
Neu cysylltwch ag Eurgain Haf,
Swyddog y Cyfryngau ar 0790
993 7218,
e.haf@savethechildren.org.uk.

Ymunwch â ni yn ystod
Wythnos Achub y Plant rhwng
26 Ebrill - 2 Mai i wneud
gwahaniaeth i fywydau
miliynau o blant ar draws y byd.

**Cofiwch
Gefnogi ein
Hysbysebwy**

RHODDION

£20: Gwenllian Roberts, er cof
am Gwilym Owen Roberts,
Weirglodd Goch, Penisarwaun.

£18.50: P.W. Williams, Corby.

£15.00: Olwen Ebrell, Coventry.

£13.50: Di-enw; Gwerfyl
McCarthy, Childwall, Lerpwl.

£10.00: Olive Thomas,
Llanddaniel; Emrys Owen, er
cof am Lena a Jenny; Eluned

Jones, Mochdre; A.
Sidebotham, Whalley Bridge,
Stockport; John Evans Hughes,

Kirby Muxloe, Leicester; Mrs
Alice Thomas, Plas Pengwaith
(gynt o 1 Bro Elidir, Dinorwig);

Sadie, Anita, Janice, David a
Dylan er cof am Eban Wyn
Humphreys; Er cof am Ethel

Cropper, gynt o 8 Rhes Efrog,
Llanberis; Elwyn Morris,
Oakfield, 6 Ffordd Capel Coch,

Llanberis; Ralph Jones, Y
Garnedd, Ffordd yr Orsaf,
Llanberis; Er cof am Evelyn

Jones gan Ken, Carol, Emyr ac
Iwan. Er cof am Eirianwen
Evans, 1 Ffrwd Madog,
Brynrefail.

£8.50: Di-enw

£5.00: Mrs Jean Jones, 24 Bryn
Tirion, Penisarwaun; Mona
Jones, 17 Dôl Eilian, Llanberis;

Dilys Fouraces, Chiswick,
Llundain; Gomer Davies,
Tregarth; Owen Jones,

Llangefni; Mrs B. Williams,
Llanfairpwll; Mrs Jenny
Davies, Llangeitho; Stanley

Jones, 60 Dôl Elidir, Llanberis;
Teulu'r diweddar Meredydd
Parry Jones, 30 Llys-y-Foel,

Caernarfon; Er cof am Eirlys
Lloyd Jones, 5 Bro Deiniol, gan
Meurig, Malcolm, Maureen,

Michael ac Ann; Gethin, 2 Tai
Gweledfa; Megan Humphreys,
Is Helen, Tregof, Bethel.

£3.50: Mrs Nancy Lovatt,
Aberystwyth; Elizabeth
Williams, Llwyndyrus;

Rhiannon Griffiths, Y
Drennewydd.

Harddwch eich cartref gyda



**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS



**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



TEITHIAU CAFFIS YR WYDDFA

Na, nid dyna'r enw swyddogol ar Gylchdaith yr Wyddfa, ond mae'n rhoi syniad o'r atyniadau blasus sydd ar gael ar daith gerdded sy'n dilyn rhai o ddyffrynnoedd Eryri. Syniad Sam Roberts, Warden Parc Cenedlaethol Eryri oedd hybu'r teithiau hyn, ac ar yr un pryd rhoi hwb i fusnesau lleol. Mae cefnogaeth frwd i'r cynllun gan bum caffi, yn eu plith, Gaffi Pen Ceunant, Llanberis, sy'n eiddo i Steffan Roberts. Cafodd yr 'Eco' sgwrs â Steffan ynglŷn â'r cynllun.

'Y syniad tu cefn i'r cynllun yw denu pobl i gerdded o amgylch yr Wyddfa yn hytrach na phawb heidio i'r copa. Ar gyfartaledd mae pob taith tua saith cilomedr o hyd, ond gyda dringo'n bosibl, yn dibynnu ar y cyfeiriad a gymerir gan y cerddwyr,' meddai Steffan. Ar ddechrau a diwedd pob taith mae caffi yn cynnig amrywiol fwydydd neu ddiodydd i dorri syched. Ychwanegodd Steffan *'fod y caffis hefyd yn cynnig gwybodaeth am y teithiau, gwybodaeth am y tywydd ar y diwrnod arbennig hwnnw, a gwybodaeth am amserlenni bysiau pe bai'r cerddwyr angen cludiant yn ôl i'w man cychwyn.'*

Mae'r daith gyntaf yn arwain o Lanberis drwy Fwlch Maesgwm i Ryd-ddu, pellter o 8.5 cilomedr. Mae'r ail daith o Ryd-ddu yn dilyn llwybr yr Wyddfa cyn troi heibio'r Aran a thrwy'r bwlch am Gwm Llan a Nant Gwynant; pellter o 7.7 cilomedr. O Nant Gwynant, mae'r drydedd daith yn dilyn yr hen ffordd i fyny am Ben y Gwryd a Phen Gorffwysfa. Dringo cyson o 6.7 cilomedr, ond taith braf o'i cherdded o'r cyfeiriad arall! Mae'r gylchdaith yn cael ei chwblhau o Ben Gorffwysfa i Lanberis, pellter o 8 cilomedr. Y gobaith yw y bydd llwybr newydd wedi ei

gynllunio o ardal Nant Ucha i lawr y dyffryn yn y dyfodol agos. Gellir eu cerdded o ba gyfeiriad bynnag y dymunir, wrth gwrs.

Y pum caffi sy'n rhan o'r cynllun yw Pete's Eats a Phen y Ceunant yn Llanberis, Tŷ Mawr yn Rhyd-ddu, Gwynant yn Nant Gwynant (sef yr hen gapel), a Jainies ym Mhen Gorffwysfa.

Ac ar ddiwedd taith o Ryd-ddu dros Fwlch Maesgwm i Gwm Brwynog a Chaffi Pen Ceunant, beth sy'n well na bara brith cartref, panad dda o de neu wydriad o Gwrw Eryri? Ydi, mae Steffan yn grediniol y dylai pob busnes lleol hybu cynnyrch lleol. Dyna pam mai diodydd o Gymru sy'n cael eu



cynnig ganddo: Cwrw Eryri o Fragdy Conwy, Cwrw Mws Piws o Fragdy Porthmadog a Wisgi Penderyn.

Er mai ar gyfer ymwelwyr y trefnwyd y cynllun yn wreiddiol, does dim o'i le ar i grwpiau lleol ddefnyddio'r

llwybrau a'r caffis i drefnu teithiau dros fisoedd yr haf. A gall yr 'Eco' dystio, os yw'r croeso a gafwyd ym Mhen Ceunant yn nodweddiadol o'r gweddill, yna mae'n werth dechrau gwneud trefniadau am deithiau cerdded yr haf rw^an.

CHWARTER CANRIF ANTUR WAUNFAWR DATHLU... A CHOFIO

Eleni mae'r Antur yn dathlu ei ben-blwydd yn 25 oed, a byddwn yn gwneud hynny drwy gynnal diwrnod o hwyl i'r holl deulu ar Fai 2ail, yma ar ein safle yn Waunfawr.

Rhwng 1 a 4 y p'nawn byddwn yn cynnal ein Gŵyl Fai flynyddol gyda hwyl i'r holl deulu fydd yn cynnwys cerddoriaeth byw, gemau, ceffyl a throl, hen beiriannau, BBQ ayb.

Alun Ffred Jones, A.C.

Ond bydd 'na naws wahanol i'r Wyl eleni gan ein bod yn dathlu carreg filltir a chofio sylfaenydd yr Antur ar yr un diwrnod.

Yn ystod y p'nawn byddwn yn agor Gardd Goffa Gwynn Davies, sylfaenydd a Chadeirydd yr Antur am flynyddoedd, ynghyd ag agor siop hanesyddol Bryn Pistyll yng nghwmni Alun Ffred

Jones, A.C. Y Gweinidog Treftadaeth.

Rhwng 4 a 8 o'r gloch byddwn yn cynnal cyngerdd dathlu yn y parc. Penderfynwyd cynnal gig gyda'r nos yn dilyn awgrymiadau gan selogion yr Wyl y buasant yn dymuno cael gweithgaredd gyda'r hwyr - a gan fod y dathliad yn un hanesyddol, dyma sydd am ddigwydd.

Sibrydion

Yn perfformio yn y gig ar y llwyfan acwstig bydd Meinir Gwilym a Gwibdaith Hen Fran. Yn agor y perfformio ar y prif lwyfan fydd y band lleol, Drymbago, ac i ddilyn Gai Toms a'i Fand, a Sibrydion fydd yn cloi'r noson.

Cost y tocynnau i'r 'Gig' fydd £5, gyda mynediad i blant o dan 12 am ddim (yng nghwmni rhiant/gwarchodwr) - ni

chaniateir mynediad i'r digwyddiad heb docyn.

Bydd tocynnau ar werth yn Nghaffi Blas y Waun, Waunfawr a'r Warws Werdd, Stad Ddiwydiannol Cibyn a Palas Print, Caernarfon.

Dewch i ymuno â ni yn y dathlu.

Dywedodd Gill Wyn, Cadeirydd Antur Waunfawr 'Rwyf yn arbennig o falch fod yr Antur yn dathlu 25 mlynedd o wasanaeth i bobl yr ardal, ac mae cofeb i Gwynn Davies, ynghyd ac agor Siop Bryn Pistyll (siop teulu Gwynn Davies), ar ffurf siop o 50au'r ganrif ddiwethaf yn deyrnged bwrpasol iawn iddo. Edrychwn ymlaen i ddathlu'r diwrnod yng nghwmni pobl Waunfawr a'r cymunedau lleol.'

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
DIESEL	PETROL	CHWISTRELLIAD	ARBENIGWYR

***Cymhwyter*
BOSCH**
i roi gwasanaeth i'ch car
heb effeithio ar
y warant*
Dewis arall dibynadwy
yn lle'r Prif Ddeliwr
* Gyda rhai amodau

Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr
Lle da y gellwch ei fforddio

Stad Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

FIAT	PEUGEOT	BMW	SKODA
ABS	BRÉCS	CLUTCHES	TYRBO
AIR CON	GWASANAETH	BATRIS	
VOLVO	MERCEDES	SAAB	

MEWNFORIO YR ALMAEN
UNIONI OLWYNION CAM BELTS TRYDANOL
SWEDEN

CHWILOTA

LLANBERIS: YN ÔL I'R DYFODOL?



Pe bai gobeithion dau ddyn busnes wedi eu gwireddu bron i gant a hanner o flynyddoedd yn ôl, yna byddai golwg dra gwahanol ar bentref Llanberis erbyn heddiw. O astudio Map y Degwm am y plwyf yn 1840, prin bod unrhyw adeiladu wedi digwydd ar y ddôl ar lannau Llyn Padarn. Roedd Gwesty Dolbadarn yn bodoli, ond roedd y gweddill o'r adeiladau ar y tir uchel uwchlaw'r ddôl, a ffermydd gan mwyaf oedd y rheini, megis Cae'r Frân a Dôl Tŷ Du. Eto'i gyd, pan gyhoeddwyd map yr Ordians yn 1888, roedd Llanberis yn bodoli fwy neu lai fel ag y mae heddiw, gyda phatrwm tynn o fân strydoedd ym mhen gorllewinol y ddôl. Mae'n amlwg i'r pentref ddatblygu o fewn cwta ddeugain mlynedd. Ond gallai fod yn dra gwahanol, ac mae'n debyg mai dyfodiad y rheilffordd a fu'n gyfrifol am yr hyn sy'n bodoli heddiw.

Elusen Tlodion Rhuthun oedd yn berchen y rhan fwyaf o'r tir ble saif rhan orllewinol pentref Llanberis heddiw, ac ar y laf o fis Mai 1852 rhoddwyd y tir ar les i Hugh Bodfel Roberts am gyfnod o 75 mlynedd. Ond ym mis Hydref 1863 trosglwyddwyd y les ganddo i Thomas Field a John Lane, dau ŵr busnes, a hynny am weddill y cyfnod.

Masnachwr llechi oedd Thomas Field, yn byw yn Leith ger Caeredin yn yr Alban. Roedd hefyd am gyfnod yn berchen chwarel lechi Garreg Fawr yn y Waunfawr. Roedd John Lane yn byw yn Hafod, Llanrug, ac yr oedd yntau â'i fys ym musnes y mân chwareli llechi ar y llethrau uwchben Llyn Padarn. Cyflogwyd John Masterton,

pensaer a syrfewr, i gynllunio tai a rhannu'r tir allan ar gyfer adeiladu. Un o Gaeredin oedd hwn hefyd.

Rhannwyd y tir yn ddeg ar hugain o unedau, gyda'r bwriad o adeiladu un tŷ ar bob uned ar wahân i dair uned ble bwriedid adeiladu dau dŷ. Neilltuwyd hefyd un o'r unedau ar gyfer adeiladu eglwys newydd, ac o astudio'r cynlluniau, roedd honno i fod i'w lleoli rhywle ble mae'r Clwb Cymdeithasol heddiw, ac nid ar Fryn Eglwys yn ôl y gred gyffredinol. Roedd Bryn yr Eglwys ei hun, sef yr uned agosaf at safle'r eglwys newydd, wedi ei glustnodi ar gyfer un o'r tai newydd, neu *villa* fel y caent eu galw - a sylwch oddi wrth y llun, pa mor hynod o grand oedd y tai i fod! Roedd yr holl dir yn cynnwys dros 90 acer, ac felly, ar gyfartaledd, roedd tair acer o dir gogyfer â phob tŷ - a gerddi oedd y rhain, nid tir i gadw anifeiliaid!

Pe bai'r cynllun wedi ei wireddu, dau dŷ yn unig fyddai ar y llain tir rhwng gwesty Padarn Lake a thafarn y Prince of Wales heddiw. Byddai'r gweddill yn llenwi'r tir ar ochr orllewinol y pentref, ac yn ymestyn draw at Ynys Wen, ble roedd y terfyn bryd hynny, â phlwyf Llanrug.

A beth am y mân chwareli llechi ar lethrau'r Cefn Du? Roedd chwarel yn ymestyn o Fwlch y Groes a Thy'n y Mynydd i lawr i gyfeiriad Tŷ Du. Yr enw ar honno pan gynlluniwyd y *villas* oedd Chwarel Tŷ Newydd, ac yr oedd yn fwriad cael gwared â'r gwastraff llechi ar y tir rhyngddi a Chae'r Frân a Maenllwyd Uchaf, fel na fyddai'n amharu ar



yr adeiladu ar y tir is.

Erbyn diwedd 1864 roedd sôn am adeiladu 'a large house on Bryn Eglwys', a 'laying out the remainder of the land for building.' Erbyn mis Rhagfyr 1865 yr oedd un tŷ wedi ei adeiladu, sef Bodafon.

Ond erbyn hyn, roedd cynlluniau ar droed i ymestyn y rheilffordd i Lanberis. Roedd dau gynllun, sef un llinell yn uniongyrchol o Fangor, a'r llall o Gaernarfon. Sefydlwyd Cwmni Rheilffordd Caernarfon-Llanberis, ac yr oedd llinell y rheilffordd i redeg yn union drwy dir Field a Lane. Dyma fygythiad i'w cynlluniau uchelgeisiol.

Aeth y partneriaid â'r Cwmni Rheilffordd i gyfraith ym mis Rhagfyr 1867, oherwydd yr oedd y Cwmni eisoes wedi cael hawl i adeiladu ar draws eu tir. Ond roedd Field a Lane yn benderfynol o gael rhywfaint o arian yn iawndal am y golled o fethu adeiladu tai. Gwnaethant gais am £1,012 am golli tir i adeiladu wyth *villa*. Gwnaethant gais arall am £450 'for deterioration to Bryn Eglwys land,' a gwnaethant drydydd cais am £1,350 am golli deuddeg acer o dir adeiladu.

Ar hyn o bryd, does gen i ddim gwybodaeth am ganlyniad yr achos cyfreithiol, ond mae un peth yn sicr; ni chafodd unrhyw ran o'u cynllun i adeiladu *villas* yn Llanberis ei wireddu. Bodlonwyd ar godi clystyrau o

dai teras ar y tir na chafodd ei hawlio gan y rheilffordd, a hwnnw yw'r patrwm sy'n bodoli yn Llanberis heddiw. Does ryfedd i un o'r strydoedd rheini gael eu galw yn Field Terrace.

Dim Ymateb

Yng ngholofn y mis diwethaf soniais mai peth dieithr iawn oedd peidio derbyn ymateb i'r golofn, ac i hynny ddigwydd y mis diwethaf. Buan y cefais fy nghywirow. Daeth llythyr, e-bost ac amlen drwy'r drws gan Rhian Williams, Caerdydd, Eifion Roberts, Llanberis a Ceri Foulkes, Deiniolen. Ond roedd colofn y mis diwethaf eisoes wedi ei hysgrifennu cyn i'r ymatebion hyn gyrraedd, ac felly, rhaid delio â hwy y mis hwn.

Holai Rhian am chwedl Ganthrig Bwt o Greigiau'r Gromlech ym mwllch Llanberis; chwedl sy'n eithaf cyffredin am a wn i, am y wrach neu'r widdan oedd yn dwyn plant o'r Nant, ac fel y bu i'r trigolion ddarganfod llaw plentyn wrth Greigiau'r Gromlech a llwyddo i ddal Ganthrig fel na fu aflonyddu ar drigolion yr ardal byth hynny.

Cofia Rhian hefyd am y cyfnod yn y 1950'au pan oedd ei mam yn 'cadw fusutors'. Adroddai fel yr oedd cynberchennog Bod Awen wedi bod yn gwneud yr un peth flynyddoedd ynghynt, a'i hymffrost na fyddai ei thy^ byth yn wag. Yr hyn a wnâi oedd

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Yn Gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys-
PENISARWAUN - DEINIOLEN - LLANRUG A LLANBERIS

Ffoniwch Dylan (Llys)
ar 871833
Symudol-07778127394

Gwasanaeth Teimladwy
Urddasol a Phersonol
24 awr y dydd
Capel Gorfllwys Preifet

CERBYDAU CLASUROL VR WYDDFA
Cyrraeddych Mewn Steil- Mewn Cerbyd **Rolls Royce**
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Gwesty Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser - Aneuryn Jones a'r staff

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

CYMANFAR ANNIBYNWYR CYLCH DEINIOLEN A CHWM Y GLO. Cynhelir y Gymanfa eleni bawn Sul, 17 Mai am 2.00 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis. Trefnir bws a hyderir y ceir y gefnogaeth arferol.

LLONGYFARCHIADAU i Avril ac Eifion, Glan-y-Don, ar enedigaeth eu wyres fach, Siwan Erin, merch fach i Carys a Dylan a chwaer fach i Alaw yn Llanberis.

ANFONWN ein cofion gan ddyddmuno yn dda i Mrs Peggy Rowlands, 3 Maes Gerddi, sydd erbyn hyn wedi ymgartrefu yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun. CYDYMDEIMLAD.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Karrah, Stephanie a Rebecca, Aran, yn eu profedigaeth o golli eu mam.

UNDEB Y MAMAU. Cafwyd y cyfarfod blynyddol yn yr ysgol gymuned ar nos Lun, 2 Mawrth. Croesawodd Arweinydd y gangen, Mrs Dorothy Jones, bawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gafwyd llynedd a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Cafwyd adroddiad gan Dorothy am y cyfarfodydd a gafwyd ar hyd y flwyddyn a diolchodd i bawb am eu cymorth. Cafwyd adroddiad gan y Trysorydd, Mrs Joyce Ransom, ar y sefyllfa ariannol a diolchwyd i Mr Peter Taylor am archwilio'r llyfrau.

Yr oedd Arweinydd y gangen a'r Trysorydd am ymddeol o'u swyddi y flwyddyn hon. Doedd ncb am gynnig gwncud y gwaith felly trafodwyd y posibilrwydd o uno'r gangen gyda changen arall.

Y gwesteion oedd Mrs Enid Taylor a Mrs Joyce Ransom, hwy hefyd roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Gwyneth Roberts. Diolchwyd i'r gwestion gan Mrs Gwen Owen.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partion rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUC

Y DYNCIG at 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
wefan: www.ydyncig.co.uk

Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

YR YSGOL GYNRADD

Dawnsio Gwerin. Llongyfarchiadau i Grŵp Marchlyn am ddod yn ail yn Eisteddfod Sir Yr Urdd ym Mangor.

Llongyfarchiadau hefyd i grŵp Glaslyn am ddod yn ail yn yr Eisteddfod Cylch (Dan 12 oed) ac i Grŵp Llydaw am ddod yn ail hefyd (Dan 10 oed). Bydd cyfle i bawb ddawnsio eto yn y Cyngerdd Pasg.

Cawsom lawer o hwyl ar Ddiwrnod Trwynau Cochion. Roedd y Cyngor Ysgol wedi trefnu gwahanol weithgareddau i gasglu arian - addurno bisgedi, gwisgo i fyny, dweud jôcs, chwilio am drwynau coch o amgylch yr ysgol a chystadleuaeth lluniau gwirion. Casglwyd £150 i'r achos. Ardderchog wir!

Daeth Marion Hughes o Menter Fachwen draw i gael sgwrs gyda'r Adran Iau. Roedd wedi bod yn Kotayam yn India gyda llythyrau i ysgol yno gan ein disgyblion. Dychwelodd gyda llythyrau ac anrhegion gan blant Kotayam a difyr oedd cael gweld lluniau ohonynt gan Marion.

Cafodd Blwyddyn 5 a 6 fynd i Galeri, Caernarfon, i weld sioe wyddoniaeth Fflach Bang! Roedd yn ffordd ddiddorol a hwyliog dros ben o ddysgu am

Côr Meibion Dinas Bangor

Yng nghyfarfod blynyddol y Côr etholwyd y canlynol i'r Pwyllgor: Llywydd: Mr Cledwyn Jones; Cadeirydd: Gwyn Hefin Jones; Is Gadeirydd: Norman Evans; Ysgrifennydd: Owain Myfyr Parry; Trysorydd: Hugh Harry Williams; Trefnydd Cyngherddau a Llyfrgellydd: Emrys Hughes; Cynrychiolwyr



Grŵp Marchlyn: Aiden, Matthew, Danny, Oisín, Holly Shannon, Corrie a Lilac.



Yr hwyl ar Ddiwrnod Trwynau Coch

gemegau a nwyon.

Daeth Catrin Williams a Hugh Warren i'r ysgol i gynnal gweithdy Celf/Jazz. Roedd pawb wedi mwynhau y profiad yn fawr iawn, fel y gwelwch o'r lluniau yn yr Albwm ar y wefan.

Llongyfarchiadau i Oisín Lowe-Sellers a Daniel Jones am gael eu dewis i Griw Celf. Byddant yn cael mynd i weithdai Celf mewn gwahanol lefydd yng Ngwynedd yn ystod y flwyddyn.

Lleisiau: R. J. Williams, Douglas Jones, Dewi Hughes, Bob Thomas.

Cafwyd adroddiadau gan y Cadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd ac Arweinydd.

Diolchwyd i'r Arweinydd, James Griffiths, y Cyfeilydd, Lowri Roberts Williams, y Dirprwy Arweinydd, Gwilym Lewis, yr unawdwyr a phawb gymerodd ran yn ystod y flwyddyn.

Ar nos Sul, 1 Mawrth, canodd y Côr mewn cyngerdd arbennig i

ddathlu Gŵyl Ddewi yn Eglwys Dewi Sant, Bangor. Canwyd emynau addas rhwng eitemau y Côr. Cafwyd ymateb da iawn gan y gynulleidfa tuag at safon uchel y canu.

Yn ystod Ebrill bydd y Côr yn cymryd rhan mewn dau gyngerdd, sef yn Neuadd Albert, Llundain, ar ddiwedd y mis a chyn hynny bydd y Côr yn canu mewn cyngerdd efo'r digrifwr Ken Dodd.

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ**

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 - 6.30**

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

**33 Stryd Fawr
PORTHAETHWY**

Ffôn: **(01248) 714043**

neu **Caernarfon**

Ffôn: **(01286) 674520**

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

YSGOL Y CYSEGR. Braf oedd cael cwmni nifer o rieni, perthnasau a chyfeillion yn cydaddoli yn ddiweddar mewn gwasanaeth arbennig gan blant yr Ysgol Sul. Croesawyd pawb i'r Oedfa gan Geraint Elis. Gan fod Gŵyl Ddewi wedi syrthio ar y Sul priodol felly oedd cyflwyno hanes Dewi Sant ar lafar ac ar gân, a bu i holl blant yr Ysgol Sul gymryd rhan. Cychwynnwyd gyda phawb yn cyd-adrodd 'Dydd Gŵyl Ddewi hapus' ac, yn dilyn cyfraniadau gan pob dosbarth, diweddwyd gyda'r gân 'Cymro da oedd Dewi Sant'. Ar ddiwedd y gwasanaeth cafwyd anerchiad pwrpasol gan Llion Williams ac yna diolchodd Geraint Elis i Rita Williams am drefnu'r cyflwyniad ac i'r athrawon am baratoi'r plant. Penderfynwyd bod y casgliad rhydd yn mynd tuag at Gronfa Joshua Clarke, felly cafodd cyfeillion Y Cysegr gyfle i gefnogi'r ymgyrch i godi arian er budd y plentyn bach. Cyfanswm y casgliad oedd £152.60.

CLWB BRO BETHEL. Dathlu Gŵyl Ddewi fu hanes yr aelodau y mis yma a hynny ar wahoddiad y Pennaeth a'i Staff yn yr Ysgol Gynradd. Cafwyd cyngerdd o safon uchel iawn gyda holl blant yr Ysgol yn cymryd rhan mewn eitemau traddodiadol a chyfoes. Yn wir roedd pawb wedi mwynhau gwledd o ganu, dawnsio, llefaru ac eitem offerynnol. Yn ogystal â'r cyngerdd cafwyd gwledd arall wedi'i pharatoi gan blant Bl. 6, sef te blasus, a bu i bawb oedd yn bresennol werthfawrogi'r holl waith roedd yr Ysgol wedi'i gyflawni er budd henoed y pentref.

Diolchwyd yn gynnes iawn i'r Pennaeth, y Staff a'r Plant gan y Parchedig Marcus Wyn Robinson ac anfonwyd cofion at Goronwy Jones a'r Prifardd

Selwyn Griffith - y ddau yn methu a bod yn bresennol oherwydd gwaeledd. Cydymdeimlwyd hefyd â Megan Humphreys yn dilyn colli ei chwaer yn ddiweddar. Ar ddiwedd y cyfarfod cyflwynwyd rhodd ariannol i'r Ysgol fel gwerthfawrogiad o'r cyfan.

MERCHED Y WAWR. Dathlwyd Gŵyl Ddewi eleni yng Nghlwb Golff Caernarfon a chafwyd gwledd arbennig iawn gan ddathlu, yn sicr, mewn steil. Y wraig wadd oedd Gwenan Gibbard, cantores a thelynos o Bwllheli, ac yn dilyn swper blasus, cafwyd orig ddifyr yn ei chwmni yn cyflwyno eitemau ar y delyn gan gynnwys alawon Cymreig traddodiadol a chanu cherdd dant. Noddwyd y noson gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o dan y cynllun NOSON ALLAN.

Llongyfarchwyd Ellen Ellis ar gyrraedd pen-blwydd arbennig a dymunwyd yn dda i Nansi Williams, hithau hefyd yn dathlu pen-blwydd arbennig cyn bo hir. Anfonwyd cofion at Seiriol, gŵr Beti Owen, ac Emyr, gŵr Mair Price, y ddau heb fod yn dda yn ddiweddar. Ebrill 7fed. oedd dyddiad lwcus y Dyddiadur (wedi ei ddewis gan Gwenan) a'r enillydd oedd Mair Price. Enillwyr gwobrau'r raffl, yn rhoddedig gan y Pwyllgor, oedd Ann Lewis, Nansi Williams, Ceinwen Roberts, Glenys Griffiths, Margaret Williams ac Edith Jones.

LLONGYFARCHIADAU i Siôn Elwyn ar gael ei dderbyn yn aelod o Fand Pres Cenedlaethol Cymru ac i'w chwaer, Manon Elwyn, ar gael ei chynnwys yn y rhestr wrth gefn ar gyfer yr un band. Llongyfarchiadau i Manon, hefyd, am ddod yn ail mcwn cystadleuaeth dan 18 oed a gynhaliwyd gan Fandiau Pres



Plant Ysgol Sul Capel y Cysegr yn dathlu Gŵyl Dewi bore Sul, 1af Mawrth

Gogledd Cymru yn y Galeri, Caernarfon, yn ddiweddar. Mae'r ddau yn aelodau o Seindorf Arian Deiniolen ac o Fand Pres a Band Symffonig Gwynedd a Môn.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Noson o hud a lledrith a gafwyd yn y Gymdeithas y mis yma. Croesawyd pawb ynghyd gan y Llywydd, Ieuan Williams, gyda chroeso arbennig i'r gŵr gwadd, sef Robert Jones, y Consuriwr. Bu wrthi yn arddangos ei ddawn fel dewin, gan wahodd aelodau o'r gynulleidfa i'w gynorthwyo mewn nifer o driciau. Pawb yn rhyfeddu at ei

allu goruwch naturiol i bob ymddangosiad. Aed oddi yno, ar ôl paned a sgwrs, wedi'n plesio yn fawr gan y diddanwr. I gloi gweithgareddau'r Gymdeithas am eleni caiff yr aelodau fwynhau pryd o fwyd ar Ebrill 21, a gofynnir i bawb ddychwelyd y ffurflen ynghyd â'r arian i Sheila, Nora neu Glenys erbyn Mawrth 31.

DYMUNA Megan Humphreys a'r teulu, Is Helen, Tregof, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl, Jennie, o Gaeathro.

NANT PERIS

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01286) 670726

CARNIFAL NANT PERIS 2008

Bydd yr elw o £250 a wnaed gan Garnifal Nant Peris 2008, yn cael ei gyflwyno i Bron Brawf Cymru, yr ymgyrch symudol sgrinio'r fron, sy'n dod o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

DYMUNA Jennic Wyn Jones, Dwyfor, Nant Peris, ddiolch yn fawr i aelodau a chyfeillion Rehoboth am y parti yn y festri a diolch hefyd i bawb am y cerddiau a'r anrhygion ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979

620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mekanig profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

THE LEGACY

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (0)870 832 9903

LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

PLAID CYMRU. Cafwyd gwledd a digon o hwyl wrth ddathlu Gŵyl Ddewi nos Wener, Chwefror 27, yng ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Er gwaetha'r pryder bod gêm rygbi Cymru v Ffrainc wedi ei threfnu ar yr un noson â'r cinio, daeth criw da ynghyd i fwynhau'r bwyd, y gwmniaeth, ac yn arbennig ddoniau anhygoel y gŵr gwadd, Neville Hughes.

Gellid dychmygu bod Hogiau Llandegai i gyd yno wrth glywed Nev yn mynd drwy'i bethau. A gwyh oedd cael yr hwyl i godi calonnau pawb ar ôl cael canlyniad trychinebus y rygbi. Diolchodd y Llywydd, Phyllis Ellis, iddo am noson wych.

MERCHED Y WAWR. Croesawyd nifer dda o aelodau i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant ar 10 Mawrth gan y Llywydd, Phyllis Elis. Braff oedd cael croesawu Ceri, aelod newydd, atom. Cafwyd rhagarweiniad i fywyd a gwaith Dewi gan Phyllis cyn cychwyn ar y rhaglen o Frethyn Cartref a luniwyd gan yr Ysgrifennydd, Ann Thomas.

Cafwyd darlenniadau gan Mary Roberts o Buchedd Garmon ac, i ddilyn, y parti canu yn cyflwyno Finlandia.

Dilynwyd gydag unawd 'Fy Maban Bach' gan Menna. Darllenwyd 'Mwy neu Lai', Tilsley, gan Phyllis ac yna 'Cymru a Chymraeg' gan Mary, gyda 'Molwn Ef am Gymru' gan y parti.

Mwynhawyd cadwyn o alawon Cymreig ar yr acordion gan Bethanne a deuawd gan y ddwy Ann. Cyflwynodd Phyllis 'Hon', T. H. Parry-Williams i'w dilyn gyda 'Cymru' gan y parti canu. Detholwyd pytau o 'Gwlad, Gwlad' am Dewi, Yr Heniaith, Ein Cenedl a'n Gwlad gan Ann Ifans.

Cafodd pawb gyfle i bori drwy'r Llyfr Lloffion chwastus a baratowyd gan Nan a Linda a

diolchwyd iddynt am eu gwaith caboledig.

Paratowyd lluniaeth Cymreig gan aelodau'r Pwyllgor a diolchodd Phyllis iddynt am y wledd ac am addurno'r byrddau â daffodiliau a lliciniau o liwiau'r Mudiad.

Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Elusen Alzheimer am y rhodd er cof am gyn-aelod ffyddlon a gweithgar o'r gangen, Beryl Thomas. Diolchir i Mair a Margaret Parry am gynnal dwy awr dawel nodedig er budd Ysgol Pendalar - casglwyd £226.

• Atgoffir pawb y cynhelir Clwb Chwaraeon Rhanbarth Arfon yn Neuadd Gymuned Penisarwaun nos Wener, 3 Ebrill am 7.00 o'r gloch.

• Cynhelir Noson Celf a Chrefft y Rhanbarth yn y Groeslon ar 15 Mai.

• Ar 9 Mai bydd 'Mwyniant Mai' yn Ysgol Friars, Bangor.

• Cynhelir y Trip Blynnyddol eleni ar 12 Mai. Byddwn yn ymweld â 'Pherlysiau Llŷn' ac i ddilyn gyda 'Taro Deg'. Enwau os gwelwch yn dda i Myfanwy (Ffôn: 870846) erbyn 12 Ebrill neu Ann Thomas (673929).

Ar 14 Ebrill, ein gwetai fydd Gwenllian Roberts gyda 'Ailgylchu'. Genod y Te fydd Helen, Myfanwy, Ann Ifans a Mary Roberts.

YR YSGOL GYNRADD Hanes Lleol

Fe hoffwn dynnu sylw'r darllenwyr i'r wefan Hanes Bro: 'Eco'r Wyddfa', sef <http://web.me.com/rygarug>

Sefydlwyd y wefan yma yn Ysgol Llanrug ddwy flynedd yn ôl i greu archif ddigidol o luniau sy'n cofnodi hanes Dyffryn Peris dros y can mlynedd diwethaf. Mae'r safle wedi datblygu llawer dros y misoedd diwethaf ac mae mwy a mwy o bobl yn cyfrannu lluniau i'w sganio ar gyfer y wefan.

Fe hoffwn ddiolch i Mrs Mair Hughes a Mr Owain Larsen am

gyfraniadau gwerthfawr dros y misoedd diwethaf i'r archif ysgol.

Rydym wedi dechrau didoli lluniau i gyfnodau penodol, e.e.

30au i'r 40au, y 50au ar 60au ac mae'r plant yn cael llawer o hwyl yn edrych ar hen luniau eu rhieni yn yr ysgol.

Dyma ychydig o luniau - beth am fwy o wybodaeth?



CAPEL Y RHOS

OEDFAON MIS EBRILL

5: Y Gweinidog

12: (Pasg) Parch. Arthur Williams

19: Y Gweinidog

26: Parch. John Owen

Cynhaliwyd Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd Eang y Chwirydd bawn Gwener, Mawrth 6ed. Roedd hwn yn gyfarfod agored i chwirydd pob enwad ac fe gafwyd gwasanaeth cynnes a bendithiol.

Trefnwyd y thema eleni gan wragedd Papua Guinea Newydd. Diolch i'r merched fu mor barod i gymryd rhan ac i'r rhai fu'n helpu i baratoi lluniaeth ar ddiwedd yr oedfa.

Ar fore Sul, Mawrth 15fed, croesawyd Marilyn a Geraint, Tremallt, a'r teulu a ffrindiau i wasanaeth bedydd eu merch fach. Bedyddiwyd a bendithwyd

parhad ar dudalen 9

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwyh

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŷryn lleol mwyaf blaen,
Selsig cartref
Cigodd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewglist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

Caffi Caban

ar Agor


9 y bore tan 4 y pŵn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

**Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Elin Ann gan Y Parch. Marcus Robinson, ein gweinidog.
BABIS NEWYDD

Llongyfarchiadau mawr i Ian a Zarena ar enedigaeth mab bach, Kayman Lee Thomas, brawd newydd i Josie a wyr i John a Menna Thomas, 57 Bro Rhyddallt.

Dymuna Elen a Paul, Caernarfon, ddiolch yn fawr iawn am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da a gawsant ar enedigaeth eu merch fach, Ela Jên ar yr 20fed o Ionawr.

Llongyfarchiadau mawr iddynt ac i taid a nain, sef Leslie a Carys Parry, Gwynant, ffordd yr orsaf. **DIOLCHIADAU**

Fe ddymuna Mrs Lily Owen, 4 Cefn Elan, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu ymweliadau, galwadau ffôn, cardiau, arian ac anrhegion tra yr oedd yn Ysbyty Gwynedd a Chartref Cerrig yr Afon ar ôl cael damwain yn ei chartref a thorri ei hysgwydd. Diolch yn fawr.

Dymuna Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, ddiolch o galon i'w pherthnasau, ffrindiau a chymdogion, am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn ei phrofedigaeth o golli ŵyr annwyl iawn iddi, sef Wayne Kift. Gwerthfawrogwyd yr ymweliadau, cardiau a galwadau ffôn. Diolch yn arbennig i'r Parchedig Marcus W. Robinson a'r Parchedig Dafydd Lloyd Hughes am eu gwasanaeth teimladwy iawn ddydd yr angladd. Hefyd i Mr Gwynfor Evans, Mrs Megan Williams, Mrs Mair Hughes a Mrs Eryl Roberts, staff ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, criw 'Caredig' Gofasl Cartref, pawb yn Antur Waunfawr ac yn olaf i Gwyn (Gwilym Jones a'i fab) am ei drefniadau trylwyr dros ben. Diolch yn fawr iawn.

PROFEDIGAETH

Cydymdeimlwn yn ddiffuant a Mrs Eirwen Williams, Doreen, Robin, Alison a Menna, Anne, Rhys a Thomas yn eu profedigaeth o golli gŵr,

tad, tad yng nghyfraith a thaid annwyl iawn. Hefyd i'r teulu i gyd ac ei ffrindiau oll. Roedd gan Evan dalent arbennig iawn fel arlunydd, ond wedi methu yn y blynyddoedd olaf oherwydd gwaeledd. Bydd bwch mawr yn y cartref.

SEFYDLIAD COFFA

Enillwyr clwb 100 mis Mawrth. 1 - K. Owen 56 Bro Rhythallt £20, 2 - Mrs M. Roberts, Tai Minffordd £7, 3 - Mrs M. Griffiths 2 Hafan Elan £5.

DIOLCHIADAU

Dymuna Elaine a'r staff, Siop Trin Gwallt, ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth a dymuniadau da yn eu siop newydd. Casglwyd swm anrhydeddus o £400 tuag at Ymchwil Melonoma. Diolch yn fawr iawn.

Cyngor Cymuned Llanrug

Crynodeb o gofnodion cyfarfod mis Ionawr a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Cwm y Glo. Cadarnhawyd y cofnodion blaenorol yn gywir.

Aethpwyd drwy'r cofnodion a dywedwyd fod y drain wedi eu plannu yn Glanmoelyn ond y bydd angen tua 30 eto. Cadarnhawyd na chafwyd ymateb gan y pensaer am welliannau i gae chwarae Cwm y Glo.

Gwelliannau i barc chwarae Glanmoelyn: Dywedwyd bod tyllau yn y ffens gyda'r Hen Ysgol a bod angen i berchennog y tir gau'r rhain. Dywedwyd ei bod yn bwysig cael cyfarfod safle gydag ef i drafod y ffordd ymlaen gyda'r gwelliannau. Ni chafwyd adborth gan y plant am y prosiect i wella'r parc eto.

Llwybrau Cyhoeddus: Eglurodd GH am y datblygiadau gyda'r prosiect i wella llwybr Ogwen. Dywedodd fod angen enghreifftiau o'r cyhoedd yn cwyno am gyflwr y llwybr er mwyn cael symud ymlaen gyda'r cais. Penderfynwyd gyrru llythyr i berchennog y llwybr yn diolch am ei gadarnhad a'n bod yn edrych ymlaen i gael dechrau'r gwaith yn y dyfodol agos.

Cynllunio: Cafwyd cadarnhad fod Pwyllgor Cynllunio Arfon wedi caniatáu y ccisiadau canlynol:

* Cais amlinellol i godi 12 annedd yn cynnwys 2 dŷ fforddiadwy - Pen Cae, Ffordd Llanberis, Llanrug.

* Cais llawn i adeiladu dau dŷ pâr a dwy fynedfa newydd - tir ger Lleifior, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

Cafwyd hefyd gadarnhad fod y cais canlynol wedi ei wrthod:

Codi 1 tŷ - Tir ger Ty Capel, Cwm y Glo.

Daeth y ccisiadau newydd canlynol gerbron y Cyngor Cymuned:

Cais am dystysgrif cyfreithloni defnydd i osod uned preswyl symudol ar dir Ship Cottage, Llanrug - Dim gwrthwynebiad. Cais materion a gadwyd yn ôl yn ymwneud ag adeiladu 12 tŷ ar lain o dir Pencae, Ffordd Llanberis, Llanrug - Dim am ymateb gan ei fod wedi ei ganiatao eisoes.

Cais amlinellol i godi 11 tŷ fforddiadwy a chreu 2 fynedfa newydd, safle Garej Hafod, Llanrug - Gwrthwynebu ar sail gor-ddatblygu yn y pentref eisoes a'i fod y tu allan i'r ffiniau datblygu.

Materion Ariannol: Trafodwyd cais Seindorf Llanrug am gyfraniad at adeiladu'r adeilad newydd. Cytunwyd mewn egwyddor i gyfrannu arian pan oeddem yn gwybod yn iawn am eu diffyg. Cytunwyd i dalu anfonebau Cyngor Gwynedd am Neuadd Gymunedol Cwm y Glo am 2007-08 a 2008-09.

Prisiau Torri Gwair: Dywedwyd y byddai'n rhaid cael prisiau torri gwair erbyn y cyfarfod nesaf er mwyn i'r contractwr buddugol dorri erbyn y Pasg. Cytunwyd gofyn yn bersonol am bris gan y tri contractwr a fu'n gwneud gwaith i'r cyngor yn ystod y flwyddyn ac i roddi hysbyseb yn y papur i ddenu mwy o gontractwyr.

Heddlu: Dywedwyd ein bod wedi cysylltu gyda'r heddwys yn cwyno am gyflwr safle yr hen garej Hafod a'r perygl ei bod yn bosibl mynd i gefn tai Afon Rhos. Roedd yr heddwys wedi cytuno i archwilio'r safle. Cytunwyd gwahodd yr heddwys yma i'r cyfarfod nesaf.

Pryderon / Materion eraill: Trafodwyd y pryderon/materion canlynol:

a) Gormod o bobl yn parcio yn maes parcio siop Premier trwy'r dydd ac o ganlyniad fod pobl eraill wedyn yn parcio ar y palmant er mwyn mynd i'r siopau. Dywedwyd hefyd bod

bolard wedi mynd oddi yno sydd wedi hwyluso parcio ar y palmant. Cytunwyd i drafod hyn gyda'r heddwys mis nesaf.

b) Cwyn wedi ei wneud i Gyngor Gwynedd am fod y Cyngor yn glanhau strydoedd Llanrug cyn i'r lorïau bin gyrraedd, sy'n golygu eu bod yn fudr eto ar ôl y lorïau fod. Y mater wedi ei basio ymlaen i'r Cynghorydd Sir hefyd.

a) Cafwyd cwynion eto am ddŵr yn casglu ar wyneb cyffordd Ffordd Glanmoelyn a Ffordd Glanffynnon.

ch) Dŵr yn casglu ar y ffordd ar waelod Bryngwyn.

d) Tyllau ceunant yn y ffordd rhwng Ceunant a thafarn Glyntwrog ac ar Ffordd Crawia.

dd) Y coed yn maes carafannau Llys Derwen wedi tyfu yn rhy uchel a'u bod yn beryglus pan yn troi i lawr am Glyntwrog o Ffordd Minffordd.

e) Dywedwyd fod Charles Jones wedi llwyddo i gael bin y tu allan i gae chwarae Nant y Glyn. Dywedwyd eto fod y bin tu fewn i'r cae yn llawn ac nad oedd modd ei wagio gan fod y gorïad ar goll. Penderfynwyd trafod hyn gyda'r heddwys mis nesaf.

f) Cyflwr gwael safleoedd bysiau yn Llanrug.

Gohebiaeth: Ymhlith yr ohebiaeth a dderbyniwyd yr oedd y canlynol:

Ffurflen gais am praesept 2009-10 i'w chwblhau erbyn 31ain o Ionawr - Penderfynwyd gofyn am £18,000 + £3,000 o grantiau. Financial Ombudsman Service - Ffurflen i gwyno yn swyddogol yn erbyn banc Nat West.

Hacker Young: Wedi cwblhau'r archwiliad am 2007-08. Dim adroddiad lân am nad oeddem wedi cytuno'r gyllideb yn swyddogol, heb adolygu'r rheolau mewnol yn ffurfiol nac wedi perfformio asesiad risg. Byddai hyn i gyd yn cael ei wneud am 2008-09.

Blodau Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: **870605**

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU



ORIEL CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partiön, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

TAITH OLWEN YN AMERICA

Drwy gyfrwng lluniau a mapiau aeth Olwen â ni ar daith a wnaeth gyda'i gwr, Harry, yn 1999 yn dilyn ôl troed ei hen ewyrth Owen a ymfudodd o Lanberis i America. Cofnodwyd ei hanes trwy lythrau a gadwodd ei mam, Mrs Betty Rees, a dyna y tro cyntaf iddi sylweddoli ei bod yn un o'r Clossiaid! Ar y daith buont mewn sawl llyfrgell ac amgueddfa cyn cyrraedd Fferm Llan yn Cambria, Wisconsin. Bu Owen Rowlands yn gweithio yno i'w berthynas Robert Closs, a ymfudodd i America yn 1845 gan alw'r fferm ar ôl yr hen gartref, Ty'n Llan. Yn rhyfeddol, roedd disgynnydd i'r teulu yn dal i ffermio yno, sef Jeff Hahn. Cyfarfu Olwen â'i fam Lorraine Closs Hahn a byth ers hynny bu'r ddwy mewn cysylltiad.

Yn ystod y sgwrs gwelsom luniau o bentref 'Wales'. Yna ymlaen i Cambria lle'r roedd cofgolofn fawr i'r Clossiaid, yn ogystal â'r hen 'Welsh School' a



chapel Zion gyda'i do o lechi chwarel Dinorwig. Diddorol oedd gweld lluniau o Fferm Llan yn y 'Welsh Prairie' gyda pheiriannau mawr i drin y gwenith. Roeddent hefyd yn tyfu llysiau a'i canio yno. Yna teithiodd Olwen a Harry i 'Arvon', Michigan, lle'r agorwyd chwareli llechi yn 1873. Ymlaen wedyn i dalaith Powell, South Dakota lle bu gwladfa Gymreig ac yno roedd fferm Owen Rowlands. Wedi taith hir gwelsant fedd ei hewythr a'i deulu.

GWLEDD A CHÂN

Roedd y cyflwyniad gweledol yn wych a pharatowyd teitlau gan Alwyn Owens, Porthaethwy. Os am fwy o hanes gallwch brynu llyfr



Olwen *The End of the Line* am £5 trwy gysylltu ag Anne.

Diolchodd y Parchedig Gwynfor Williams yn gynnes i Olwen, aelodau'r gymdeithas a'r Parchedig Robert Townsend am noson wych. Enillwyd lawer o wobrau lwcus a drefnwyd gan Margaret Griffith yn yr egwyl. Dilynwyd gyda gwledd o ddanteithion blasus wedi eu paratoi gan Mrs Beth Owen a'r merched. Arwyddwyd cardiau

i'w hanfon i deulu'r Unol Daleithiau.

Cawsom ddiweddglo penigamp yn gwrando ar gôr soniarus Lleisiau Lliwedd yn canu rhaglen amrywiol o dan arweiniad y dirprwy, Bethan Brian, gyda Marcia Thomas yn cyfeilio.

Ar ran y Clossiaid, diolch yn fawr.

Margaret Wyn Roberts

BEIRDD A CHERDDORION DYFFRYN PERIS

Tybed sawl un ohonoch a wŷr am yr etifeddiaeth a oedd yn Nyffryn Peris a Gwyrfaï o feirdd a cherddorion yn y blynyddoedd 1759 i 1900. Mae Dyffryn Peris yn cychwyn yng nghanol plwyf Llanrug ac yn ymestyn i ben Bwlch Gorffwysfa. Ar y pigyn uwchben Y Fachwen cynhaliwyd Gorsedd y Beirdd yn gynnar iawn yn ei hanes. Felly dyma ychydig ciriau am y beirdd cynnar a oedd yn yr ardal hon yn amser Gorsedd Iolo Morganwg.

Y bardd cyntaf a ddaeth i enwogrwydd oedd y Bardd Du o Eryri. Fe'i ganwyd yng Nghwmglas Mawr, Nant Peris yn y flwyddyn 1755. Ei enw bedydd oedd Abram Williams ac enw ei dad oedd Thomas Williams. Yr oedd ganddo chwaer sy'n cael ei chofio yn yr ardal fel Catrin Thomas, neu Catrin Cwmglas.

Un hanes ar goedd gwlad am y Bardd Du o Eryri yw ei fod wedi dweud ar goedd nad oedd y bardd ieuanc a oedd yn ysgrifennu emynau i'r Methodistiaid cynnar ddim yn fardd o'r safon gorau, a mwy na thebyg ni fyddai unrhyw un yn darllen ei waith mewn amser i ddod. Enw y bardd ieuanc hwnnw oedd William Williams. Na, nid wyf am enwi ei gartref, Wedi drosg naw cant o emynau rwyf yn sicrhau ei bod i gyd yn gwybod pwy ydoedd!

Un a ddaeth ato i fyw i'r nant

oedd Dafydd Ddu Eryri ac fe fu'r ddau Ddafydd yn gyfeillion pennaf am flynyddoedd maith. Yr oedd cred yn y Nant mai y Bardd Du o Eryri oedd tad barddol Dafydd Ddu Eryri, Gutyn Peris a Gwilym Preis.

Ganwyd David Thomas, sef Dafydd Ddu Eryri, yn Ebrill 1759 yn Pen y Bont, Waunfawr. A ganwyd Griffith Williams, sef Gutyn Peris, yn Hafod Olau, Waunfawr ar 28 Chwefror 1769. Bu'n gweithio yn Chwarel Cefn Braich y Cafn ond yn lletya gyda'r Bardd Du o Eryri. Fe ddysgwyd y ddau ffrind gan y Parchedig John Thomas a oedd yn byw yn Merddyn Coch, Llanberis. Ond bu i Dafydd Ddu Eryri fodd yn Afon Cegin ar 30 Mawrth 1822.

Dyma rai o'i garolau sydd wedi goroesi'r blynyddoedd: 'Wel, Dyma'r Bore Gorau i Gyd' - dwy garol ar un enw; 'Ar Dymor Gaeaf, - tair carol gyda'r un teitl; 'Wel, Dyma'r Hynod Wyl Nadolig.'

Bu farw Gutyn Peris ar 18 Medi 1836 yn 67 mlwydd oed. Fe fu'n byw yn Nhŷ'r Aelgarth, Llanberis, o 1769 a chyhoeddodd lyfr o'i waith o'r enw *Awen Gerdd Peris* yn y flwyddyn 1813.

Bardd arall a anwyd yn Llanberis, yn Ty'n y Gadlas, oedd William Edwards, sef Gwilym Padarn. Fe'i ganed yn y flwyddyn 1786 a bu farw yn 1857, yn 71 mlwydd oed. Ysgrifennodd yntau hefyd ddwy

garol sydd mewn print heddiw, sef 'Eich Pennau, Byth, Dyrchafwn Chwi'; a 'Hosanna! Dyma'r Dydd'. Bu ef yn gweithio yn Chwarel Dinorwig gydol ei oes. Roedd o hefyd yn fab i fardd, sef y Parchedig Griffith Edwards.

Prif englynwr y dyffryn yn yr hen ddull oedd y Parchedig Evan Evans, neu Ieuan Brydydd Hir.

Bardd arall oedd Ellis Griffith, Hafoty, Glan y Bala, Llanberis. Mae penillion gan Ellis Griffith wedi eu cyhoeddi yn llyfr Gwilym Padarn.

Un arall i'w gofio oedd y Parchedig David Jones, neu Dewi Arfon, yr hwn a anwyd yn Ty Du, Llanberis, ar 6 Gorffennaf 1833. Dyma un o'i englynion:

Clogwini, coleg anian - wnaeth ryfedd
Athrofa i Ioan.

A y null gwyran allan,
Mawr wr Duw rhoes Gymru ar dân.

Fe anwyd Glan Padarn, neu Thomas Dafydd Thomas, yn Nhŷ'r Chwarel Fawr, Dinorwig, yn y flwyddyn 1846. Mae yn cael ei roddi yn yr un dosbarth â Ceiriog pan oedd yn barddoni ar ci orau. Glan Padarn oedd awdur y caneuon poblogaidd: 'Hen Ffon fy Nain', 'Bugail Hafod y Cwm', 'Cannwyll fy Llygaid Wyt Ti' ac 'Awn i Ben y Wyddfa Fawr'. Fe'i claddwyd yn y flwyddyn 1888.

Fe anwyd y bardd, John Ellis,

Elidirfab, yn Nant Peris yn y flwyddyn 1840. Ef oedd awdur 'Mae'r Olwyn yn Troi'. Yr oedd y gân yn eithriadol o boblogaidd pan oedd y canwr, Ap Glaslyn, yn ei chanu.

Un o Ddinorwig oedd Owain Goronwy ac mae ei waith barddol yn y 'Cofiant' a wnaed iddo gan Tecwyn. Ef a gyfansoddodd y Bryddest 'Yr Ysbeilwyr' a enillodd yn Eisteddfod Porthmadog, ac roedd iddi dair mil ar ddeg o linellau. Ei brif weithiau llenyddol oedd *Traethodau Beirniadol ar Dr Lewis Edwards, Bala a'u Gwelliannau*.

Fe anwyd Thomas E. Jones, sef Ap Padarn, yn Compton House, Llanberis. Enillodd amryw o wobrwon lled bwysig ac mae rhai o'i gyfansoddiadau wedi eu cyhoeddi.

Mae gwaith un arall wedi ei gyhoeddi yn llyfr ei ferch, sef *Gweithiau Y Parch Richard Jones, Glan Alaw*, a oedd yn weinidog ym Mrynrefail.

Rwyf am ddiweddu â'r beirdd gyda Phrifardd a dreuliodd ei oes yn Llanberis, sef Edwards Foulkes. Fe enillodd ei Bryddest, 'Yr Aifft', yn Eisteddfod Genedlaethol Lerpwl yn y flwyddyn 1884. Hefyd fe enillodd am gyfieithu 'The Charge of the Light Brigade'.

Fe gewch hanes y cerddorion yn rhifyn mis Mai.

R. Elwyn Griffith

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

YSGOL WAUNFAWR

Croesawn Miss Sioned Hughes atom i flwyddyn 3 a Mrs Irene Roberts a Mrs Ann Ifans i Flwyddyn 1 a 2. Ar ddechrau tymor daeth Mr Jonathon Davies, myfyriwr blwyddyn laf o'r Coleg atom. Treuliodd gyfnod o 3 wythnos yn arsylwi a dysgu grwpiau o blant yr Adran Iau. Bydd Kirsty Jones o Coleg Menai yn treulio dau ddiwrnod yr wythnos yn y dosbarth Meithrin a Derbyn drwy'r tymor hwn.

SANTES DWYNWEN.

Cafwyd diwrnod go wahanol ddydd Gwener Ionawr 23ain. Roedd y Cyngor Ysgol wedi trefnu bod pawb yn gwisgo mewn pinc i gofio Dydd Santes Dwynwen. Roedd pawb yn talu £1.00 a chasglwyd £130.00 i Gronfa'r Ysgol. Bydd y Cyngor Ysgol yn penderfynu maes o law pa gemau i'w prynu i'r dosbarthiadau ar gyfer amseroedd dan do ar ddiwrnodau gwlyb.

TIM PEL Rwyd. Cystadlodd y tîm pêl rwyd yn Nhwrnamaint pêl rwyd yr Urdd. Carem ddiolch i Mrs Caroline Davies a Sioned Parry am eu gwaith.

DAWNSIO DISGO. Diolch i Zoe Williams am roi o'i hamser i ddysgu'r tîm dawnsio disgo ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Mae'r genod wedi mwynhau pob eiliad ac wedi bod yn ymarfer yn galed pob amser chwarae. Byddant yn perfformio mewn noson Ddawnsio yn y Galeri yng Nghaernarfon ganol mis Mawrth.

CYSTADLEUAETH DYN EIRA. Wedi'r eira mawr cafwyd cystadleuaeth adeiladu dyn eira. Roedd plant yr Adran Iau wrth eu boddau a'r cae yn llawn dynion eira o bob siâp. Golygfa werth ei gweld. Efallai na welwn i hyn eto am flynyddocedd lawer! **YMWELIAD GAN Y PLISMON.** Dydd Iau Chwefror y 26ain cafwyd ymweliad gan PC Neil Williams. Cafwyd sesiynau addysgol diddorol ym mhob dosbarth a thanlinellwyd

pwysigrwydd rheolau mewn bywyd a chymdeithas.

NOSON ADDYSGOL I RIENI. Nos Lun Mawrth yr 2il trefnwyd noson addysgol i'r rhieni, i rannu gwybodaeth am y Polisi Addysg Bywyd a Pherthnasedd. Cafodd rhieni gyfle i wylwio DVD - 'SENSE' - a chael gwybodaeth am y math o wersi a ddysgir yn yr ysgol.

MAWRTH Y CYNTAF. Cafwyd ddiwrnod llwyddiannus iawn i ddathlu Gwyl Dewi. Roedd yn wych gweld pawb wedi ymdrechu i wisgo mewn coch neu yn y wisg draddodiadol Gymreig. Yn ystod y dydd cafodd y plant gyfle i brynu jeli coch, gwyrdd a hufen ia i gynrychioli baner Cymru. Cafwyd gwasanaeth arbennig, sesiwn o ddawnsio gwerin a dawnsio disgo. Bydd y £102 a gasglwyd ar y dydd yn mynd tuag at brosiect y Cyngor o brynu gemau ar gyfer amseroedd chwarae.

DIWRNOD Y LLYFR. Dathlwyd diwrnod y llyfr ddydd Iau Mawrth y 5ed, a braf oedd gweld cymaint o blant wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr.

DIGWYDDIADAU I'W CADW MEWN COF. Nosweithiau Rhieni: W.C.: 29 Mawrth.

CLWB 300. Enillwyr y Clwb 300 am fis Chwefror oedd: £40: Mrs Olwen Williams, Llidiart Wen; £25: Mr J.H. Edwards, Aneddle; £10: Ms Janet Smith, Rhoslan.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Mewn cyfarfod o'r Sefydliad a gynhaliwyd ar 5 Mawrth i ddathlu Gwyl Dewi, cafwyd pnawn difyr iawn yng nghwmni John Dilwyn Williams, Archifydd o Gyngor Sir Gwynedd. Rhoddodd Mr Williams ychydig o enghreifftiau o achosion a gymerodd le yn Sesiwn Chwarter y Llys yn ystod y 16eg ganrif. Diolchodd Catherine Jones, y Llywydd, i Mr Williams. Yn dilyn y sgwrs



cafwyd te hyfryd wedi'i baratoi gan yr aelodau. Enillwyd y raffl, wedi ei rhoi gan Alice, gan Nancy.

CANWR YN AD-DALU. Caiff un o gantorion Côr y Waun o ardal Waunfawr y cyfle i ad-dalu i'r Ambiwllans Awyr mewn cyngerdd arbennig yng Nghaernarfon wedi iddynt achub ei fywyd fis Awst y llynedd. Cafodd Haydn Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr ei ruthro ganddynt i Ysbyty Frenhinol Manceinion wedi iddo gael trawiad ddifrifol ar y galon.

Bydd Côr y Waun yn perfformio 'Er Hwyllo'r Haul' o waith Robat Arwyn am hanes bywyd Llywelyn ap Gruffydd yn Galeri, Caernarfon, ar nos Sadwrn, 9 Mai, gyda'r unawdwyr enwog Alwen Derbyshire ac Iwan Parri, a bydd elw'r cyngerdd yn mynd i'r Ambiwllans Awyr.

Dywedodd Haydn, prif faswr y Côr: 'Oni bai am yr Ambiwllans Awyr mae'n bosib iawn na faswn yno i ganu yn y cyngerdd. Mae'n bleser cael talu 'nôl iddynt.'

Gellir archebu tocynnau i'r cyngerdd o Galeri neu gan ysgrifenyddes y côr, Irene Roberts (Waunfawr 650545).

DYWEDDIAD. Estynnwn ein llongyfarchion a'n dymuniadau gorau i Fiona Johnstone, Stad Tref Eilian, ar ei dyweddiad â Keith McCan o Rydychen.

ANFONWN ein cofion at Mr Eifion Williams, Stad Tref Eilian, sydd, oherwydd nad yw yn dda, wedi mynd i aros i gartref nyrsio Ccrrig yr Afon, Y Felinheli, am gyfnod.

GWASANAETH Y CAPEL. Ar Fore Sul, 15 Mawrth, cafwyd Gwasanaeth Sul y Fam yng ngofal y Parchedig Gwenda Richards, athrawon a phlant yr Ysgol Sul. Rhaid llongyfarch a chanmol y plant am wneud eu gwaith mor dda.

GENEDIGAETHAU.

Llongyfarchiadau i John a Rhian Ellis, Ty'n Llidiart, ar ddod yn daid a nain i drydydd wyl bach. Ganwyd Gwion Iwan i Anwen ac Iwan yng Nghaerdydd. Brawd a ffrind

bach i Gruffydd a Morgan.

A daeth dwy o'r pentref yn nain am y tro cyntaf. Ganwyd efeilliaid bach, Morgan John a Louie :Llywelyn i Joanne a Telor, eto yng Nghaerdydd. Wyrion bach i Kath Tame, Sibrwd y Dail ac i Marion Iwan, Afallon.

Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ohonoch ac i'r teulu bach. Bydd hen deithio ar y ffordd rhwng Y Waun a Chaerdydd i ymweld â'r wyrion bach i gyd.

Yr un yw ein llongyfarchiadau i Mrs Annie Thomas, Gilfach, Stad Ty Hen, ar ddod yn hen Nain am y trydydd tro. Ganwyd merch fach, Elliw Fflur, i'w hwyres, Emma a Camron, chwaer fach i Osian.

ADREF O'R YSBYTY. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau i Marcus, mab bychan Sandra a Meirion, Stad Bryn Golau, sydd wedi cael triniaeth i dynnu ei 'bendics' yn Ysbyty Gwynedd.

Hefyd at Dr Raymond Williams, Tros y Gors, wedi iddo yntau dderbyn triniaeth yn yr ysbyty ac i Mrs Anne Thomas, Trefnfan, wedi iddi dderbyn clun newydd yn yr ysbyty ac i Cara, Stad Dôl Eilian, wedi iddi fod yn yr ysbyty am gyfnod.

Mawr hyderwn y byddwch i gyd yn cryfhau ac yn gwella bob dydd wedi cael dod yn ôl adref. **YN YR YSBYTY.** Anfonwn ein cofion cynhesaf at Derfel Parry, Cae March, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd, ac ar Mr Roy Jones, Cynefin, sydd yn cael triniaeth clun newydd.

CYDYMDEIMLO. Yn dawel yn Ysbyty Eryri, bu farw Mr Elfed Roberts. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Doris Roberts, Ann a'r teulu yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl.

SYMUD CARTREF.

Dymunwn yn dda i Mrs Nan Huws Roberts, sydd wedi ymgartrefu yng Nghacathro. Dymunwn bob hapusrwydd i'r rhai sydd yn dod i ymgartrefu yma ym mhentref y Waun a hyderwn y byddwch yn setlo yma yn fuan.



DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

Dymuna Gwen Griffith, Fron, ddiolch yn fawr i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y caredigrwydd a dderbyniodd ar ôl cael llawdriniaeth ddechrau'r flwyddyn. Diolch arbennig i feddygon a staff Ward Ffrancon, Ysbyty Gwynedd, Ward Maesdu, Ysbyty Gyffredinol Llandudno a Chanolfan Canser, Ysbyty Glan Clwyd am eu gofal diflino. Diolch o galon i bawb.

CYMANFA'R ANNIBYNWYR CYLCH DEINIOLEN A CHWM Y GLO. Cynhelir y Gymanfa eleni bnawn Asul, 17 Mai am 2.00 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis. Trefnir bws a hyderir y ceir y gefnogaeth arferol.

POB LWC. Dymunwn bob llwyddiant i Stan a Louise, sydd yn mentro mewn busnes newydd draw yn Tenerife!. Pob lwc a llwyddiant i'r ddau ohonynt.

LLONGYFARCHIADAU i Elfed Morgan Morris, Llechwedd, ar ennill cystadleuaeth Can i Gymru 2009 a gynhaliwyd yn ddiweddar ar S4C.

LLONGYFARCHIADAU i Dela a Iolo, Rhes Faenol, ar enediggaeth merch fach yn ddiweddar, chwaer bach i Angharad.

GWELLHAD BUAN. Anfonwn ein dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i bawb fu'n wael neu'n derbyn triniaeth ysbyty yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i deulu'r ddiweddar Mrs Eirlys Lloyd Jones, 5 Bro Deiniol.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Mrs Janice Kathleen Roberts, 69 Pentre Helen, yn eu profedigaeth ddiweddar.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL.

Cyfarfu'r aelodau ym mis Chwefror yn Nhy Elidir gyda'r Parch John Pritchard yn llywyddu. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr Elfyn Thomas o Gwmni'r Seren Arian. Cawsom sgwrs ganddo am hanes y cwmni cnwog yma a fu'n cynnal gwasanaeth bysus lleol am flynyddoedd ac sydd, erbyn hyn, yn trefnu gwyliau i bob cwr o'r byd.

DYMUNA Ken, Carol, Emyr ac Iwan ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad, ymweliadau a'r holl gardiau a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth o golli Evelyn May Jones, 7 Green Terrace yn ddiweddar.

Diolch yn fawr iawn i'r Parchedig John Pritchard am arwain yr angladd ac i Dylan Griffith am y trefniadau trylwyr.

Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at

Hafan Menai a Meddygfa Llanberis.

DYMUNA Gethin, 2 Tai Gweledfa, ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu pryder, galwadau ffôn ac ymweliadau tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch yn arbennig i'r meddygon a staff wardiau Cybi, Dulas ac Ogwen, Ysbyty Gwynedd.

MERCHED Y WAWAR. Ni fu cyfarfod mis Ionawr oherwydd y tywydd garw, serch hynny aeth dau dim o'r gangen i'r twrnament Bowldeg yn Glaslyn ger Pwllheli. Ni fu llwyddiant y tro hwn ond mwynhawyd y noson yn fawr.

Yng nghyfarfod mis Chwefror ymwelodd M/s Gwenllian Roberts â ni i sôn am y gwahanol ffyrdd o Ailgylchu ac yn y blaen, a difyr iawn oedd gwranddo arni. Anfonwyd cofion at rai o'r aelodau oedd yn wael a chyfeiriwyd yn arbennig at Iona, yr ysgrifennydd, oedd wedi syrthio yn yr eira a thorri ei braich.

Bu'r gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi yn y Glwb Golff yng Nghaernarfon a mwynhawyd pryd o fwyd blasus a daeth Gwenno Glyn o'r Bontnewydd yno i'n diddanu. Rhyfoddwyd at ei dawn arbennig ar y delyn a'r piano a hithau mor ifanc, a gwelwyd yn amlwg iawn fod dyfodol disglair o'i blaen.

Cydymdeimlwyd ac Ann Lloyd oedd wedi cael profedigaeth o golli ei chwaer yn ddiweddar.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 24 Ebrill pryd y bydd yr aelodau yn ymweld â'r Llyfrgell yng Nghaernarfon. DYMUNA Meurig, Malcolm, Maureen, Michael ac Ann ddiolch i bawb am y galwadau ffôn, y cardiau a'r rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Ward Tryfan, Ysbyty Gwynedd, er cof am Eirlys Lloyd Jones, 5 Bro Deiniol.

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Diolch

Dymuna Ann a theulu'r diwerddar Eirianwen Evans, 1 Ffrwd Madog ddiolch yn ddifffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atom. Diolch i'r Parch. Harri Parri am ei wasanaeth ac i Meirion am ei deyrnged deimladwy. I Mrs Jennie Roberts am ei gwasanaeth hi ar lan y bedd. Dymunwn ddiolch i feddygon a staff Meddygfa Waenfawr am ei gofal. Bydd rhoddion er côf am Eirianwen yn cael eu rhannu rhwng Meddygfa Waenfawr a'r Ambiwylans Awyr.

Diolch i Dylan Griffith, Tros y Waen am y trefniadau trylwyr.

YR EGLWYS
BRESBYTERAIDD
Y Gymdeithas

Daeth yn amser unwaith yn rhagor i gychwyn cyfarfodydd y Gymdeithas am 2009. Mae ein diolch i'r Ysgrifennydd, Dafydd G. Ellis, Gweledfa, am drefnu'r rhaglen o Ebrill i Hydref. Bydd y cyfarfod cyntaf nos Iau, Ebrill 16eg am 7 o'r gloch yn Ystafell Gymunedol y Ganolfan yng nghwmni Arwel Jones, Penisarwaun.

Oedfaon Ebrill

- 5: am 5.30, Parch Wynne Roberts, Porthaethwy.
- 12: SUL Y PASG am 5.30, Parch Gwilym Parry, Llanrug
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.
- 19: am 2.00, Parch Eric Jones, Bangor.
- 26: am 2.00, Parch Marcus Wyn Robinson, Bethel.

DINORWIG

Miss Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

DAMWAIN. Drwg gennym ddeall fod Mr Alwyn Jones, 5 Bro Elidir, wedi syrthio yn y tŷ ac wedi torri dipyn o esgyrn yn ei droed. Ar hyn o bryd mae mewn plaster ac nid yw yn cael rhoi pwysau ar ei droed. Brysia wella,

Alwyn.

Hefyd bu i Mrs Betty Bower, Tan y Marian, syrthio yn y tŷ a bu raid iddi hithau fynd i adran damweiniau Ysbyty Gwynedd. Gobeithio y byddwch eich dau yn gwella yn fuan.



Llun yr eira mawr ar 17eg Marwrth 1979, pryd yr oedd tro Pen y Bwlch wedi cau am rai dyddiau.

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn

Ffôn: (01286) 650218

O SLAMBAR SELWYN

Chwith oedd gweld yr hen Siop Woolworths yn cau ei drysau ddechrau'r flwyddyn. Dyna siop a fyddai yn denu pob plentyn. Roedd popeth i'w gael yn Woolworths. Oes, mae gen innau gof da o fynd drwy ddrws y siop ar sawl achlysur yn nyddiau plentynod a dod oddi yno wedi cael 'bargen'. Siop Woolworths oedd y dynfa o fynd i'r dre ar brynghawn Sadwrn pan yn blentyn.

Yn y dyddiau pan oeddwn yn gweithio i Gyngor Gwyrfa'i yn Cwellyn, roedd yna dair siop yng Nghaernarfon lle byddwn yn troi i mewn iddynt yn weddol aml ar fy awr ginio. Bob dydd Llun, yr arferiad fyddai cynnal seiat ar gornel Astons i drafod gêm bêl-droed y Sadwrn blaenorol ac i groeshoelio y reffari - yn enwedig os oedd y cofis wedi colli. Roedd Wyn Davies yn arwr ar y pryd. Rwy'n cofio'r seiadau hynny pan oedd ffwtbol yn grefydd. Cofio Wyn 'a'i ben coch fel mellten yn roedu'r bêl i gornel ucha'r rhwyd a'r Oval yn daran. O ia, mab enwoca 'Sgunbor Goch. Chwarelwr oedd o ac mi gafodd ei gardia gin Llanber.'

Siop arall y byddwn yn mynd iddi yn bur aml fyddai 'Siop J.R. Morris, Y Bont Bridd'. Sawl tro y ces i'r pleser o wrando ar y Cyn-Archdderwydd William Morris a Wil Cymro yn dechrau dadl rhwng J.R. a Bob Owen Croesor, pan ddeuai y llyfrbryf ar ei rawd i ddryllio'r delwau. Dyna i chi adloniant. 'Yn swatio yng nghesail y Bont Bridd, roedd cloc-cwecw o siop, lle doe bu seiadau llên rhwng parwydydd llyfrau. Lle deuai'r sugnwr wdbeins ar ei rawd i ddryllio'r delwau. A'r smociwr dail-carn-yr-ebol yn gwylltio'n gacwn tu ôl i ffenast-ticad-trên ci gownter.'

Siop arall yr arferwn droi i mewn iddi yn achlysurol oedd Smith's. Roedd Smith's y pryd hynny union dros y ffordd i ble roedd Woolworths. Y dynfa yno oedd i ddarllen ambell lyfr yr oeddwn wedi cael blas arno, ond yn rhy fin i'w brynu.

Ac, wrth gwrs, Siop Woolworths. Y dynfa yno fyddai y genod deniadol a fyddai yn gweithio ar y gwahanol gownteri ac roedd o'n gyfle i drefnu 'dêl' ar gyfer nos Sadwrn. Rwy'n dal i weld ambell un o'r genod deniadol o dro i dro ac yn dal i gofio troi i mewn i Woolworths heb fod angen dim arna i o'r cownteri, dim ond sgwrs a winc a 'wela i di nos Sadwrn'. Anaml iawn y byddwn i'n troi i mewn i Woolworths yn ystod y blynyddoedd diwetha 'ma - ond chwith meddwl fod y drysau ar gau, a sawl pisyn handi wedi diflannu.

Oes, mae 'na dipyn o newid wedi bod yn yr hen dref ers i Bryddest 'Y Dref' gael ei chyfansoddi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Clwyd 1973. Dinistriwyd Swyddfa'r Herald a'r Majestic gan dân. Diflannodd Siop J.R. ac Astons, a sawl siop arall. Dal i freuddwydio am Awstralia mae Bill Parry, a'i 'freuddwyd yn froc ar draeth y Belan', ac mi fasa'r 'Cofis' yn rhoi rhywbeth am gael Wyn Davies arall i'w hachub nhw y dyddiau hyn.

Ond mae'r Maes yno o hyd, ar ei newydd wedd, ac mae yntau yno. 'Roedd o yn nabod nhad, a nhad yn i nabod yntau.' 'Ciliodd y sbarc o'i lygaid glas-lwyd, ond fe ddeil i fygwth torf ddi-hidio'r maes â'i ddwrn o garreg.'

Mae eco'r lleisiau yn chwarae heno ar gasct y cof.'

UN FUNUD FACH

CAEL DYRCHAFIAD

Mae'r Pasg yn agos unwaith eto. Gan fod y Pasg yn ddiweddar eleni, mae gobaith y cawn ni dywydd braf ganol Ebrill. Mae'n debyg bod pawb yn edrych ymlaen at hynny wedi'r gaeaf hi ac oer. Mae'r plant yn disgwyl yn eiddgar am wyliau'r ysgol ac at fwyta'r wyau siocled. Ac mae'r eglwys Gristnogol yn edrych ymlaen at ddathlu'r ŵyl sy'n cyhoeddi calon y Ffydd Gristnogol.

Un o ryfeddodau hanes y Pasg yn yr efengylau yw bod Iesu Grist yntau yn edrych ymlaen at ddathlu'r Pasg gyda'i ddisgyblion y flwyddyn olaf honno a dreuliodd gyda nhw ar y ddaear. "Gwyddoch fod y Pasg yn dod ymhén deuddydd", meddai wrthynt, "ac fe draddodir Mab y Dyn i'w groeshoelio" (Mathew 26:2). Er hynny, roedd Iesu'n benderfynol o aros yn Jerwsalem a wynebu'r hyn oedd o'i flaen yng nghynllun rhagluniaeth ac iachawdwriaeth Duw. Ac aros a wnaeth, a chyflawni'r gwaith yr oedd wedi dod i'r byd i'w wneud, wrth iddo farw ar groes yn ein lle, er mwyn i ni gael maddeuant a pherthynas gywir â Duw. Oni bai am Iesu a'r hyn a wnaeth ar Galfaria, byddai'n amhosibl i ni fod mewn perthynas gywir â Duw.

Un o negeseuon mawr y Pasg,

felly, yw bod yr amhosibl yn bosibl. Mae hynny wrth wraidd yr hyn a ddigwyddodd yn Jerwsalem y Pasg hwnnw wrth gwrs. Cafodd Iesu ei ladd ar groes, a'i gladdu mewn bedd. Ac yna, digwyddodd yr amhosibl: daeth yn ôl yn fyw. Ond gallwn golli golwg ar ryfeddod hynny. Fe ddigwydd hynny os tybiwn mai stori gyffrous yn unig sydd yma. Fe ddigwydd hefyd os ceisiwn esbonio'r bedd gwag yn nhermau darlun i gyfleu rhyw wirionedd am y da goroesi yn wyneb pob drwg, neu fywyd rywsut yn trechu yn y diwedd. Ond fe all ddigwydd hefyd hys yn oed os ydym yn credu'r gwirionedd bod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw yn gorfforol - os gadawn i'r ffaith honno fynd yn rhy gyfarwydd i ni. Am ein bod yn gwybod yr hanes, mae modd i ryfeddod pur y digwyddiad golli ei syndod a'i rym i ni. Digwyddodd yr amhosibl, a thestun rhyfeddod fydd hynny'r Pasg hwn eto gobeithio. Bu farw, a daeth yn fyw. A chanlyniad y weithred amhosibl honno yw'r ffaith bod yr amhosibl yn bosibl yn ein perthynas ni â'n Tad nefol. Mae modd i ni adnabod Duw; mae modd i ni gael ein derbyn, er gwaethaf ein pechodau; mae modd i ni gael y bywyd tragwyddol yr oeddem wedi colli pob hawl iddo. Mae'r amhosibl yn bosibl, a'r Pasg sy'n dangos hynny'n eglur.

GŴYL DDEWI YN YR ORIEL

I ddathlu Gŵyl ein Nawddsant eleni trefnodd Cymdeithas Eglwys Sant Padarn noson arbennig yn Oriol Eryri. Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Mr Ralph Jones. Y siaradwraig oedd Olwen Ebbrell, un o blant Llanberis sydd wedi ymgartrefu yn Coventry ers blynyddoedd. Daeth i Nant Peris fis Awst y llynedd i gyfarfod â theulu'r Clossiaid o America ac Awstralia gan fwynhau croeso Clossiaid y Nant ac Anne Cumberton yn hen gartref y teulu yn Nhy'n Llan.

Cyflwynwyd Olwen gan ffrind ysgol a llywydd y Gymdeithas - Anne Parry Jones a gyfansoddodd gerdd yn

arbennig ar gyfer y noson:

Braf cael dychwel i'th gynefin,
Braf cael dod i'r man y'th
meithrin.

Dwyn i gof yr hyn â fu,
Dysgu am eu cefndir lu.

Fe gewch chi wybod yn y man,
Pwy sy'n perthyn i griw Ty'n Llan,
Cefndir llawer - fo a hi,
A gyflwynir 'nawr i ni.

Pwy sy'n un o'r Clossiaid enwog,
Cryf, neu glên, neu wan neu
fywiog?

'R unig ffordd i weld y gwallau,
Ydi treiddio'i mewn i'r achau
Fel bu Olwen 'r holl flynyddoedd.
Croeso cynnes 'r hen ffrind
oesoedd.

Anne

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch
â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Gasglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870088



GWASANAETH COLCHI A SMWDDIO

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

DIOLCHIADAU. Dymuna Robert Owen, 1 Erw Wen, ddiolch yn fawr iawn i bawb yn dilyn profedigaeth o golli ei wraig, Jennie. Diolch am y cydymdeimlad, yr ymweliadau, y cardiau a'r galwadau ffôn. Diolch hefyd i'r Parchedig Gwynfor Williams ac i'r Ymgwymerwyr Roberts ac Owen, Penygroes.

Diolch hefyd am yr £400 a gasglwyd tuag at Sefydliad y Galon Cymru. Diolch yn fawr i bawb.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn y Ganolfan, Y Waunfawr ar 18 Chwefror. Cyfetholwyd Mrs Cadi Jones fel yr ail aelod ar gyfer Ward Caeathro. Gellir cysylltu â hi trwy ohebu â Nant, Waunfawr LL55 4BJ, ebost: cadijones@hotmail.com neu drwy ffonio 650587.

Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd:

- wedi cytuno i ddarparu giât mochyn i'w gosod ar lwybr cyhoeddus 30, rhwng Llety ac Ysbytty.
- wedi addo gwella'r draenio ar yr A4085 ger Tyddyn Whisgin yn 2009/10.
- wedi prynu arwydd lân newydd ar gyfer 'Caeathro Bach' i'w osod cyn bo hir.
- wedi torri'r gwrych yn ôl ar y pafin cul rhwng 'Eryl' a'r bont.

Roedd y Cyngor yn gefnogol i estyniad ar 13 Tai Glangwna, yn amodol ar ddefnyddio llechi Cymreig. Mae Cyngor Gwynedd wedi caniatáu'r datblygiad a gychwynnwyd ar adeiladau allanol Tyddyn Whisgin.

Mewn ymateb i gwestiwn, adroddwyd fod torri gwair mynwent y Cyngor ym Metws Garmon bum gwaith y flwyddyn yn costio £1,150. Yn ogystal talwyd biliau ychwanegol yn ddiweddar o £550 ar gyfer gwaith cynnal chadw arall.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 25

Mawrth yn ystyried ceisiadau am gymorthdaliadau gan fudiadau lleol.

CAPERNCITA ROJA. Dyna deitl llyfr diweddaraf Emily Huws, Tyddyn Llwydyn. Na, peidiwch â phoeni, nid yw hi wedi colli'i phwyll. Cyfieithiad o'i llyfr *Hugan Fach Goch* yw'r llyfr, sydd wedi ei addasu er mwyn cefnogi'r Gymraeg ym Mhatagonia. Ysbrydoliaeth Emily oedd geni Elin Margaret a Mathew Andreas, efeilliaid ei nai, Richard Hogg a'i wraig, Monica – sy'n dod o Golombia. Mae Elin a Mathew yn mynychu cylch Ti a Fi yn yr Wyddgrug, gyda'r bwriad o fynd ymlaen i Ysgol Glanrafon.

CROESO mawr i Nan Huws-Roberts, sydd wedi symud i 10 Erw Wen o'r Waunfawr.

HELFA WYAU PASG. Gofynnir i bob plentyn yng Nghaeathro a'r cylch, oedran ysgol gynradd neu iau, ymgasglu gyda'u rhieni ym maes parcio Bryn Gwna am 11.00 o'r gloch ar fore Sul y Pasg, sef 12 Ebrill. O'r maes parcio byddant yn cerdded i'r helfa!

PRIODAS FAWR IAWN. Llongyfarchiadau i Margaret a Hugh Jones, 22 Tai Glangwna, ar ddathlu 65 mlynedd o fywyd priodasol.

OEDFAON Y CAPEL. Disgwylir cynnal yr oedfaon canlynol yn ystod mis Ebrill:
5: 2.00, Parch Harri Parri
12: Sul y Pasg, 10.00 Oedfa'r Aelodau
19: Dim oedfa nac Ysgol Sul
26: 10.00, Mr Edward Morus Jones
11.00, Ysgol Sul.

CROESO ADRE. Croeso'n ôl i Bryn Griffiths, Delfryn, a Wil Hughes, Cefn Gwern, ar ôl cyfnodau yn yr ysbyty.

EISTEDDFOD YR URDD. Llongyfarchiadau i Betsan Lowri a Martha Ceiriog, 4 Erw Wen, ar eu llwyddiant eisteddfodol.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

CYMANFA'R ANNIBYNWYR CYLCH DEINIOLLEN A CHWM Y GLO. Cynhelir y Gymanfa eleni bnawn Sul, 17 Mai am 2.00 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis. Trefnir bws a hyderir y ceir y gefnogaeth arferol.

DIOLCHIADAU. Dymuna John, Betty, Kate, Ernest a theulu y diweddar Ethel Cropper, Bangor (gynt o 8 Rhes Efrog) ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am yr holl gardiau a galwadau ffôn, ac i bawb a gyfrannodd mor hael at Hospis Hafan Menai yn Ysbyty Gwynedd.

PRIODAS ARIAN. Llongyfarchiadau i June a Dei, merch a mab-ying-nghyfraith Mrs Mona Jones, 17 Dôl Eilian, Llanberis, ar achlysur eu Priodas Arian. Llauer o gariad a phob hapusrwydd yn y dyfodol. Oddi wrth Mam xxx.

DIOLCHIADAU. Dymuna Elwyn Morris, Oakfield, 6 Ffordd Capel Coch, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl alwadau ffôn, cardiau ac ymweliadau a dderbyniodd tra yn ysbytai Bangor a Manceinion. Diolch hefyd yn arbennig, i feddygon a staff y ddwy ysbyty.

Dymuna Stanley Jones, 60, Dôl Elidir, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am bob

arwydd o gefnogaeth a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad diweddar yn Ysbyty Gwynedd. Diolch ichwi oll.

Dymuna Nia a Dylan, 7 Coed Y Glyn, ddiolch o waelod calon am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniwyd. Diolch am y caredigrwydd a'r dymuniadau da a gawsant gan bawb. Diolch i'n teulu ac i'n ffrindiau am bob dim.

Dymuna Ralph Jones, Y Garnedd, Ffordd yr Orsaf, ddiolch yn gynnes iawn, a datgan ei werthfawrogiad i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr ymweliadau, y cardiau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed. Diolch o galon i bawb am yr holl ddymuniadau da.

Dymuna Laura, Judith ac Ian, teulu y diweddar Meredydd Parry Jones, ddiolch o galon am y cardiau, y galwadau ffôn a'r rhoddion a gafwyd at Hafan Iechyd. Diolch i'r Parch J. Ronald Williams am ei wasanaeth ac i Gwyn Jones o Gwilym Jones a'i Fab.

DYMUNIADAU GORAU. Pob hapusrwydd i Ian a Ffion Torr a'u teulu bach wedi iddynt symud o'r Stryd Fawr i'w cartref newydd yn Pant Cafn. Mae hyn yn dilyn symudiad y Morrisiaid i'r Foty. Braf yw gweld teuluoedd ifainc Cymreig yn sefydlu unwaith eto'n ardal Cwmbwrwynog.



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C.

mewn cymhorthfa, ffoniwch 01286

672076 i wneud apwyntiad neu

ysgrifennwch atynt:

\$wyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

neu

ebost:williams@parliament.uk

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwrthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

PORTREAD **Manon Ellis** **Williams,** **Bethel**



Pan ymwelais â Manon yn ei chartref ym Methel, ni fûm yn hir cyn sylweddoli ei bod yn berson oedd â meddwl positif, a daeth yn weddol eglur ei bod yn ogystal yn berson oedd yn cael boddhad personol o wasanaethu eraill. Nid syndod felly oedd ei chlywed yn adrodd sawl pennod o'i phrofiadau mewn gwahanol wledydd.

Er cael ei geni ym Methel, symudodd y teulu pan oedd Manon yn ifanc iawn i bentref ger Warrington, ac o'r herwydd addysg gynradd mewn ysgolion Saesneg a gafodd, a gweddol fratiog oedd ei Chymraeg pan ddaeth y teulu yn ôl i Fethel ymhen deuddeng mlynedd gyda'r canlyniad mai yn nosbarth y dysgwyr yr oedd Manon pan aeth yn ddisgybl i Ysgol Brynrefail, Llanrug. Ond ymhen blwyddyn roedd gwelliant hynod yn ei Chymraeg ac wedi cyrraedd safon derbynol.

Wedi ymhen mlynedd yn Ysgol Brynrefail aeth yn efrydydd yn y gyfraith i brifysgol Aberystwyth, ac er cael gradd yno nid ydyw, hyd yn hyn o leiaf, wedi gweithio fel cyfreithwraig, er mae yn deg credu bod ei gwybodaeth gyfreithiol wedi bod o fudd sylweddol iddi yn y gwahanol ddyletswyddau mae wedi'i dilyn dros y blyneddau.

Fel y cyfeiriwyd eisoes roedd awydd a dyhead diffuant Manon i gyflawni gweithredoedd a fyddai yn llwsl a bendithiol i eraill yn denu sylw ac mae, er yn gymharol ifanc, wedi cyflawni hynny ar fwy nag un cyfandir erbyn hyn.

Y swydd gyntaf a ddaeth i'r rhan oedd gyda'r 'Biwro Gwirfoddolwyr' yng Nghaernarfon. Diben y 'Biwro'

- a ariannwyd gan Gyngor Sir Gwynedd a'r Loteri Cenedlaethol - oedd i geisio denu gwirfoddolwyr i wasanaethu gwahanol fudiadau fel elusennau plant, yr henoed a'r anabl. Erbyn heddiw, Mantell Gwynedd sydd yn cyflawni'r dyletswyddau hyn. Wedi tair blynedd yn y swydd, ac ymunodd a'r 'Cynllun Gwirfoddoli', fel y'i gelwid, gan ganolbwyntio ar bobl oedd wedi ymddeol, i wirfoddoli yng Ngogledd Cymru.

Symudodd ymhen amser i Gaerdydd, eto yn yr un maes, gan weithio y tro yma gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, y corff cenedlaethol sydd yn bodoli fel math o ymbarel dros y sector gwirfoddol yng Nghymru. Roedd y symudiad hwn yn rhan o'r 'symud ymlaen' ym mywyd Manon - dechrau ar lefel sirol, yna rhanbarthol ac yna ar lefel cenedlaethol, yn gweithio'n agos a mudiadau gwirfoddol yn Lloegr, a gorffen ar lefel rhyngwladol.

Yna un diwrnod daeth moment annisgwyl ond cyffrous yn ei bywyd, y bore pan gynigiwyd iddi ymuno â swyddfa ryngwladol y mudiad yr oedd yn gweithio iddo yng Nghaerdydd, a'i gwahodd i fynd unai i Indonesia, Delhi yn yr India, neu i Johannesburg yn Ne Affrica, ac yno yr aeth Manon ym 2002 gan ymuno â mudiad o'r enw 'CIVIC US'. Roedd nifer helaeth o wledydd a sefydliadau drwy'r byd yn cyfrannu i'r mudiad hwn a'r prif swyddfa yn wreiddiol yn Washington UDA, ond penderfynwyd symud y swyddfa i Johannesburg.

Amcan 'Civic Us' oedd ceisio dod â'r holl fudiadau gwirfoddol rhyng-genedlaethol at ei gilydd. Roedd nifer sylweddol o'r mudiadau hyn yn gweithio tu allan i derfynau llywodraethau a'r sector breifat, ac yr oedd ymdeimlad nerthol fod gwir angen uno'r mudiadau.

Roedd staff 'Civic Us' yn dod o wahanol wledydd a chyfandiroedd - Affrica, Ewrop, y gwledydd Arabaidd, a'r Dwyrain Pell, yr Unol Daleithiau a Chymru wrth reswm, ym mhresenoldeb Manon Ellis Williams, a'r deg ar hugain a sefydlodd y swyddfa newydd i'r mudiad yn Ne Affrica yn fuan iawn wedi tyfu yn deulu rhyng-genedlaethol cyfeillgar a chydweithredol.

Wrth reswm rhaid oedd holi ynglyn â diogelwch bywyd dyddiol yn Johannesburg. Do cafodd dau gar o'i heiddo eu dwyn a bu i rywrai dorri i mewn i'w chartref unwaith. Fe siaredir cynifer ac un-ar-ddeg o wahanol ieithoedd yn Johannesburg, ac o bosib i'w ieithoedd y Zulu, Sotho a'r Afrikaans oedd yr ieithoedd a glywid amlaf ar y glust. O barch efallai i'r ffilm enwog

'ZULU' gyda Stanley Baker yn seren yn ail-greu brwydr y milwyr o Gymru yn Rorkes Drift ymaelododd Manon mewn dosbarth dysgu iaith y Zulu, ac yn wir dysgu digon i gynnal sgwrs yn yr iaith honno.

Arferai Manon a'i chydweithwyr ymweld â Soweto o leiaf unwaith y mis, i drefnu adloniant i'r plant a'u hannog i gymryd rhan mewn dramâu, cyngherddau, dawnsio - popeth i roi cyfle iddynt fynegi eu hunain mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Gan fod nifer ohonynt yn dioddef o gyflwr seicolegol o gryn bwysigrwydd, rhoed cyfle i'r plant fwynhau pryd o fwyd poeth a sylweddol, gan na ddoi'r cyfle iddynt gartref, lle'r oeddynt yn byw, fel y gwelsom sawl tro ar y teledu. Mewn cannoedd ar gannoedd o'r siaciau bondigrybwyll, o shitiâu sinc a chardbord, neu unrhyw ddefnydd oedd ar gael. Roedd nifer sylweddol o'r gwy'r yn gweithio oddi cartref, yn y gweithfeydd aur ar gyflog pitw. Yn ddi-feth arferai teulu cyfan - taid a nain, tad a mam, a nifer o blant fyw yn y siaciau teulu estynedig fel y cyfeiriwyd atynt gan y cyfryngau.

Mewn un cyngerdd a drefnodd Manon a'i chydweithwyr yn Soweto galwodd Nelson Mandela i roi cefnogaeth i'r plant a'r trefnwyr, a'r wen arferol ar ei wyneb, chwedl Manon.

Mae lluniau'r teledu wedi rhoi'r argraff mai dim ond y siaciau a geir yn Soweto ond, yn ôl Manon, mae yno hefyd dai o faint a phobl broffesiynol hefyd yn byw yno. Ond ni ddylid anghofio fod Soweto yn lle anferth o faint a thros filiwn o bobl yn byw yno o dan amodau difrifol. Yn amlach na pheidio 'does dim dwr na thrydan i hwyluso bywyd y trigolion druan, sydd yn papuro oddi fewn i'r shitiâu sinc neu gardbord â phapur newydd i dorri ar yr undonedd di-liw.

'Pobol glên ydi pobol Soweto, bob amser yn hynod barod i helpu'i gilydd,' meddai Manon 'fel ac y mae pobol De Affrica yn gyffredinol.' Pan holais a oedd y trigolion yn ymwybodol o Gymru, roedd y ffilm a soniwyd amdani uchod yn sicr wedi

gwneud y Zulus yn bur ymwybodol o Gymru a'i phobl. Wrth reswm, rhaid cofnodi i Ann, mam Manon, ddod draw i Johannesburg am wyliau, a hefyd ymweld â Soweto (Chwi gofiwch Ann fel cynorthwyydd yn meddygfeydd Waunfawr a Llanrug am flynyddoedd).

Wedi pum mlynedd daeth Manon gartref i Fethel, ond yn fuan iawn roedd yr awydd i drafaelio'r byd yn ôl yn ei gwaed, a'r tro yma troi ei chefn, dros dro o leiaf, ar y byd gwirfoddoli a mynd i ddysgu Saesneg i un o ysgolion De Korea.

Yn fuan sylweddolodd Manon fod cryn wahaniaeth rhwng De Korea a De Affrica - yr hen draddodiadau ac arferion yn dal mewn grym yn Korea, y merched yn cael ei trin fel dinasyddion ail ddosbarth ag agwedd geidwadol yn rhan o gymeriad y bobl - yn anfodlon i edrych allan i'r byd tu-hwnt i'w tiriogaeth hwy.

Yn naturiol, pan ddaeth gwyliau'r ysgol, daliodd Manon ar y cyfle i bicio draw i Awstralia am bythefnos o wyliau.

Roedd, ac y mae, dylanwad yr Unol Daleithiau yn fawr yn Ne Korea a nifer sylweddol o'r milwyr yn y wlad o hyd. Hynny o bosib oherwydd yr elyniaeth rhwng De a Gogledd Korea a'r bygythiad sydd yn bodoli i un o'r ddwy wlad ymosod ar y llall.

Ond, wedi deng mis, penderfynodd Manon droi tuag adref - 'wedi cael digon' meddai, dan wenu. A phan ofynais beth oedd hi yn golli fwyaf ar ei phererindodau i bellafoedd byd, ei hateb heb oedi dim oedd, 'lobscows'.

Bellach mae yn ymlacio adref ym Methel - yn mwynhau lobscows mam - ac mae'n amheus a fydd eto yn hel ei thraed i wledydd tramor, ond yn gobeithio cael swydd gyda un o fudiadau yn y byd elusennol a gwirfoddol yn y wlad hon.

O sylweddoli fod Manon Ellis Williams yn ferch eangfrydig, fyrlymus, ddiwyd, ac yn sicr yn ferch â 'digon o blw', mae'n anodd credu y bydd yn ddi-waith yn hir.

Rol Williams

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG - WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org

COFIWCH
Gefnogi ein Hysbysebwy

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED

Adran yr Urdd.

Llongyfarchiadau mawr i'r plant ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Cylch yn Ysgol Brynrefail dydd Sadwrn, 28 Chwefror. Daeth Y Gân Actol, Parti Llefaru, Parti Unsain a'r Côr yn gyntaf yn eu cystadlaethau. Yn yr un modd, rydym yn llongyfarch Catrin Alaw Walker ar gael llwyfan a dod yn drydydd yn y gystadleuaeth Llefaru Unigol i Bl. 3 a 4. Yn ogystal, mae'n rhaid ei llongyfarch ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod Sir, hefyd daeth grŵp y gân actol yn gyntaf a'r partion eraill yn ail. Dymunwn y gorau i'r gân actol wrth iddynt gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ar 27 Mai. Gyda diolch i bawb fu'n brysur yn hyfforddi'r plant a'u cefnogi.

Diwrnod y Llyfr, 5 Mawrth.

Dathlwyd y diwrnod yma eleni gyda'r plant yn dod i'r ysgol wedi gwisgo fel unrhyw gymeriad o'u hoff lyfr Cymraeg. Cafwyd cinio blasus wedi ei baratoi gan Anti Carolyn i ddathlu Gŵyl Ddewi.

Ymweliad. Bnawn dydd Gwener, 6 Mawrth, croesawyd yr arlunydd llcol, Mr Islwyn Williams i'r ysgol i gynnal Gweithdy Celf gyda CA2. Roedd pawb wedi cael pleser wrth ei wyllo yn gwneud darlun o aderyn, a chael cyfle i fynd ati i wneud un eu hunain wedyn. Diolch, Mr Williams, am fod mor barod i roi eich amser i ddod yma.

Ymweliad Addysgol. Fel rhan o'u gwaith thema 'Y Fferm' aeth plant CA1 i ymweld â'r fferm yng Nglynllifon yn y bore, ble cawsant weld amryw o anifeiliaid gwahanol. Yna, ymlaen i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis yn y prynhawn er mwyn dysgu sut oedd golchi dillad erstalwm.

Gwahoddiad. Derbyniodd plant Bl. 3 a 4 wahoddiad i fynd i Gelli Gyffwrdd ar fore dydd Gwener, 20 Mawrth, er mwyn bod yn rhan o agoriad swyddogol atyniad newydd gyda Mr Alun Ffred Jones, y

Gweinidog Treftadaeth.

Gweithdy.

Cynhaliwyd Gweithdy offer taro i holl blant yr ysgol fore dydd Mercher, 25 Mawrth. Roedd wedi cael ei drefnu gan 'Live Music Now' a phawb wedi cael pleser yn cymryd rhan.

G E N E D I G A E T H . Llongyfarchiadau i Dyfed a Bethan, Llanfairpwll, ar enedigaeth eu mab bychan, Twm Elis, a anwyd ar ddydd ein Nawddsant.

Llongyfarchiadau i Liz ac Eric, 17 Bryntirion, ar ddod yn nain a thaid balch am yr eildro, ac i Elis a Jane Roberts, Llanfairpwll, ac i Gwyneth Jones, Bryntirion ar ddod yn hen nain. Mae'n siŵr fod Beca Gwyn, chwaer fawr Twm wedi gwirioni. Pob bendith i chwi oll fel teulu.

GWELLAD. Gyda'r dydd yn ymestyn ac arwyddion y gwanwyn yn gryf o'n cwmpas, gobeithio fod pawb sydd wedi bod yn sâl yn gwella. Ein dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan wedi'u triniaethau yn Ysbyty Gwynedd i Jean Jones, Bryntirion a Selwyn Griffith, Bryn Eglwys. Ein cofion hefyd at Eurgain Haf, Rhiwen, Pontypridd, a da deall ei bod yn gwella wedi damwain hefo'i cheffyl yn ddiweddar. Ein cofion at Miss Gwyneth Owen, Minffordd, hithau wedi cael triniaeth yn yr ysbyty.

CYDYMDEIMLAD. Yn dawel yng nghwmni ei theulu yn ei chartref, 2 Bryntirion, ar drothwy ei phen-blwydd yn 96 oed, bu farw Mrs Ellen Jane Williams (Nel), priod addfwyn y diweddar Harry a mam arbennig Alwyn a'r diweddar Olive a Haydn; mam yng nghyfraith Delyth a John a nain groesawus Rhian, Dylan ac Elgan, Gori, Carwyn, Ffion ac Aaron a hen nain falch Cian ac Ilan, Elin, Lidia a Cain a Harri, Ben ac Olivia. Estynnir ein cydymdeimlad llwyrâf â chwi yn eich colled fawr.

YSGOL SUL BOSRA. Cynhelir Cymanfa Cylch Deiniolen a Chwm y Glo eleni yn Festri Capel Coch, Llanberis, bnawn Sul, 17 Mai am 2.00 o'r gloch.

Trefnir bws a gobeithiwn y cawn eich cefnogaeth arferol. Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid ym mis Mehefin.

Dymuna aelodau'r Ysgol Sul longyfarch Anti Liz ar ddod yn nain unwaith yn rhagor - bydd Nain a Taid wedi gwirioni efo Twm Elis a Beca Gwyn, ac rydym mor falch bod Anti Jean yn gallu symud yn ddiboen wedi iddi gael clun newydd.

DYWEDDIAD.

Llongyfarchiadau a phob bendith i Ynyr, mab Tegid a Nant, ar achlysur ei ddyweddiad â Gwenllian Glyn, merch Aled ac Afryl, Caerdydd.

PWLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Mawrth a'r enillwyr oedd Alwyn Williams, Pen y groes ac Elen George, Sw^n yr Engan.

Ein gweithgareddau pellach fydd:

- Hwyl y Pasg ar nos Fercher, 1 Ebrill, am 6.00 o'r gloch

- Miri Mai ar dddd Iau, 21 Mai

- Ras Peli ar 16 Gorffennaf.

Diolchir ymlaen llaw am eich cefnogaeth arferol.

DIOLCH. Hoffai Mair Foulkes, 3 Tai Bryn Hyfryd, ddiolch am y swm sylweddol o £500 ar achlysur ei phen-blwydd arbennig. Bydd yr arian yn mynd at gael ci tywys (*Guide Dog for the Blind*).

EGLWYS SANTES HELEN.

Dydd Gwener y Groglith cynhelir Awr Dawel am 2.00 o'r gloch y pnawn. Yn dilyn y gwasanaeth addurnir yr Eglwys ar gyfer y Pasg.

Sul y Pasg. Gweinyddir y Cymun Bendigaidd am 1.00 y bore. Croeso cynnes i bawb.

PRIODAS. Ein dymuniadau gorau i Manon (11 Bryn Eglwys gynt) ar achlysur ei phriodas â Mike. Cynhaliwyd y briodas yn Sansibar ac fe aeth aelodau o'r teulu draw i ddathlu eu diwrnod arbennig. Y mae Manon yn wyres i Myfanwy a Dic, Tawelfa. Bydd dathlu eto i Myfanwy a Dic yn mis Ebrill gan fod eu mab, Ian, yn priodi â Laura, yn Carlisle. Felly hwyl ar y paratoi a'r dathlu.

CRONFA'R PENSIYNWYR. Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Chwefror oedd Mrs Gwenda Jones, 11 Bryntirion. Da iawn chi.

CYDYMDEIMLO. Ein cydymdeimlad llwyrâf â chwi, Mrs Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, ar golli brawd yng nghyfraith ac ewythr i Heulwen, 12 Bryn Eglwys.

DIOLCH. Dymuna Jean Jones, Bryntirion, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau ac anrhegion wedi ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dylunio / Design

Cyfryngau / Media

Arddangosfeydd / Exhibitions

Safweoedd / Websites



cread

gwasanaeth dylunio / cyfryngau
design / media service

t - 01248 713437

m - 07867 976183

e - post@creadcyf.co.uk

w - www.creadcyf.co.uk

1161 5an



www.ffmpegia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.ffmpegia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan

William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfod a gynhaliwyd y 3ydd o Fawrth 2009. Croesawodd y Cadeirydd Elen Roberts o Amgueddfa Lechi Cymru i'r cyfarfod.

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Llwyd Jones.

Dathlu cau'r Chwarel yn 1969. Agorodd Elen y drafodaeth gan gyfeirio at archif sain a wnaed gan Clarys Roberts (Bull gynt) ac Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa). Wedyn eglurodd y rheswm am ei phresenoldeb sef i dderbyn syniadau gan yr aelodau ar gyfer y dathlu.

Cyfeiriwyd at y cynllun *Troedio Llwybrau Llanddeiniolen* sydd ar fin cael ei gyhoeddi gan Gareth Roberts ar ran y Cyngor.

Rhestrwyd y canlynol ar gyfer cyfraniadau: Clwb Orwig, Dinorwig; Gwasanaeth Achub; 1st Hydros; Ymweliad at y 'Surge Pump', Marchlyn, i edrych i lawr dros y chwarel gyfan; cyfeirio at yr holl ddioddefaint iechyd oherwydd y chwarel; Geraint Ellis, Bethel; a gwneud sylw teilwng o Graig yr Undeb gan bod hyn yn gyfle arbennig.

Cyfeiriodd Mrs Pat Larsen at ei chyfnod yn athrawes newydd ddechrau yn ysgol Llanberis a chlywed sŵn esgidiau hoelion y gweithwyr yn mynd adref yn gynnar a'r plant wedi dychryn oherwydd mai arwydd o ddamwain angheuol yn y gwaith oedd hynny. Cyfeiriodd Phyllis Elis at y ffordd o fyw yn ardal y chwarel, roedd ei thad yn arfer cadw Siop Gig yn Neiniolen, rhoddwyd popeth ar lyfr yn ystod wythnos a thalu'r cyfan ar nos Wener.

Gofynnodd Elen a hoffai'r aelodau ddathlu trwy gynnal cyngerdd a hefyd lle fyddai'n addas. Enwyd Capel Bethel neu Neuadd ysgol Brynrefail gan nad oes adeilad addas yn nes at y safle bellach. Amlygodd Len Jones ei anfodlonrwydd i'r dathliad gael ei gynnal y tu allan i'r gymuned. Trafodwyd llwyfan allanol a Marquay ond buasai'r gost yn ormodol.

Os am gynnal cyngerdd pwysleisiwyd ar y defnydd o ddoniau lleol. Enwyd Annette Bryn Parri; Maureen Rhys; Elfed Morris; Lindsey Fleming; Sian ac Emyr Gibson; Scindorf Deiniolen a'r Grwp Brigyn. Defnyddir John Ogwen fel lleisydd gan yr Amgueddfa. Awgrymwyd taith gerdded ar hyd yr hen drac i'r Felinheli. Soniodd Len Jones hefyd am ddefnyddio'r incleini i fyni at bonciau Abyssinia ac Awstralia i

gario ymwelwyr. Bu trafod eisoes ar wneud y llecyn yma yn Safle Treftadaeth Cenedlaethol ond ni fu parhad.

Cyfeiriwyd at yr holl luniau sydd ar gael i'w sganio a dywedodd Elen ei bod eisoes mewn cysylltiad â'r Llyfrgell Genedlaethol. Dywedodd Mrs Larsen bod Vivian, mab Doctor Hughes, yn dal i ymweld â'r ardal. Cyfeiriodd Huw Hughes at y lleoliadau saethu o gwmpas yr ardal a ddefnyddid i saethu powdwr mewn dilyniant. Gwirfoddolodd Huw hefyd stori ddigidol.

Y dyddiad dathlu sydd dan sylw yw'r 22ain o Awst gan, o bosib, ddechrau yn y Ty 1969 yn yr Amgueddfa Lechi. Rhif ffôn Elen Roberts yw 873 706.

Diolchodd y Cadeirydd i Elen am ei hymweliad.

Llongyfarchwyd Richard Llwyd Jones ar ennill Cadair Eisteddod Llanegryn.

Hysbyswyd y cyngor bod y cyn-glerc, Selwyn Griffith, yn yr ysbyty a phenderfynwyd dymuno gwellhad buan iddo.

Penderfynwyd hefyd longyfarch Elfed Morgan Morris a Lowri Watcyn Roberts ar ennill cystadleuaeth Can i Gymru

Derbyniwyd cofnodion Chwefror fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion
Dywedodd Elspeth Mitcheson bod cyfarfod cyhoeddus i'w gynnal ynglyn â Bandeang i Riwlas.

Ateb Hywel Williams AS mai'r gost yw'r rheswm i Gyngor Gwynedd ystyried cau toiled Deiniolen.

Ateb Edwina Hart AM MBE yn cefnogi'r ymgyrch i leoli Pencadlys Bwrdd Iechyd lleol

Prifysgol Betsi Cadwaladr ym Mangor.

Gan nad oedd ateb oddi wrth Hywel Williams ynglyn ac Afon Goch awgrymodd Len Jones ei atgoffa.

Croesffordd Trem Eilian, Bryn'refail. Cyfarfu Pat Jones a Mrs Pat Larsen â chynrychiolwyr Adran Ffyrdd Gwynedd i drafod gosod croesfan ddiogel yno. Mynnodd y peirianwyr eu troi i lawr ar bob dadl. Penderfynwyd gofyn am oleuadau ffordd i ddiogelu'r groesfan a gofyn beth yw'r gwahaniaeth rhwng y groesfan yma a'r gyffordd i gyfeiriad Rhiwlas, lle mae llecyn aros yn y canol a goleuadau. Nid oes croesffordd yma nac ystâd o dai yr ochr arall i'r ffordd fawr.

Afon Seiont. Dywedodd Pat Jones nad yw Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cadw at eu haddewid i glirio'r afon - atgoffa.

Safle biniau ail-gylchu Rhiwlas. Addawodd Gwynedd wneud y safle'n llai a'i glirio. Pwysodd Elspeth Mitcheson nad yw hynny wedi ei wneud - atgoffa. Lôn Pen Bont, Deiniolen. Hysbyswyd Gwynedd sawl gwaith, fisoedd yn ôl, bod draen agored beryglus o dan Llechwedd. Dywedodd Phylip Jones bod y perygl yn dal yno - atgoffa Gwynedd.

Gohebiaethau a materion eraill

Dywedodd Hefin Williams bod cloddiau yn cael eu dymchwel yn y caeau ger yr Hen Eglwys, Rhiwlas. Buasai llawer o weithredu fel hyn yn newid y tirwedd - ysgrifennu at Hywel Thomas, Peiriannydd Ardal Arfon, Cibyn.

Cyfeiriodd Phylip Jones at

ddraen agored yn yr hen ffordd ger tro Chwarel Fawr, Dinorwig. Dywedwyd hefyd bod y gwaith o gau tyllau yn y ffordd ar ôl yr eira yn flêr, mae'r llenwi yn waeth na'r tyllau. Penderfynwyd gofyn am raglen ail-wynebu ffyrdd Gwynedd am y flwyddyn nesaf.

Troedio Llwybrau Llanddeiniolen. Dywedodd Len Jones bod y cyfan bron yn barod gan Gareth Roberts a'i fod wedi gofyn am gael rhywun i edrych dros y proflenni. Penodwyd Len Jones, Phyllis Ellis, Y Cadeirydd a'r Clerc i gyfarfod Gareth. Gwneir y trefniant gan Len Jones.

Llwybrau
Crynodeb o lythyr cynhwysfawr Gerallt Jones, Gwynedd:
93 Rhos Wian i'r Waun, Penisa'rwaun, bydd Peiriannydd Gwasanaeth Ymgynghori'r Sir yn cysylltu â'r perchennog tir ynglyn â draenio.

34 Llwybr Sinc, Clwt y Bont, gwnaed gwaith yma yn ddiweddar ac ail godwyd wal gerrig.

Llwybr Carreg y Gath, gwnaed gwaith helaeth yma yn ddiweddar a chysylltir eto â thirfeddiannwr er mwyn draenio.

Camfeydd. Gwneir i ffwrdd â chamfeydd yn raddol trwy ymateb i ddiffygion.

112 Ty'n Llidiart i Tan yr Wylfa, Seion, cysylltir â pherchennog Ty'n Llidiart ynglyn â gordyfiant gwrychoedd, ffens ddiffygiol a wal gerrig sydd mewn cyflwr drwg. Adnewyddir y gât haearn o ffordd Seion i'r llwybr yma yn fuan.

113 Bryn Pistyll i Seion, categori isel yw'r llwybr yma, felly ni wneir y gwaith atgyweirio tan ar ôl gorffen holl waith llwybrau o gategori uwch.

Darren Jones	
Contractiwr Teilsio	
CEGINAU	
YSTAFELLOEDD	
YMOLCHI	
A LLORIAU	
9 Rhos Rug Llanrug Caernarfon	
(01286) 669090	
Mobile-07894818783	

Tegid a Samantha Pritchard	
CANOLFAN CARPEDI	
WAUNFAWR	Ffôn/Ffacs: (01286) 650291
Dewis eang o Welyau a <i>SP/Suites</i> . Llenni <i>Venetian</i> a Llenni <i>Roller</i> . 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?	

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

R.M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Iau y 19eg o Chwefror, 2009 yng Ngwesty Victoria, Llanberis.

Cyflwyniad Swyddogion yr Amgueddfa Lechi. Mae'n ddeugain mlynedd yn mis Awst eleni ers cau Chwarel Dinorwig, Llanberis. Cafwyd cyflwyniad a thrafodaeth yng nghwmni Dr Dafydd Roberts (Ceidwad) ac Elen Roberts (Swyddog Addysg) o fwriad yr Amgueddfa i gofio yr achlysur hwnnw pan welwyd cau un o'r ddwy chwarel fwyaf yn y byd. Chwarel a oedd ar un amser yn cyflogi tair mil o weithwyr ac a roddodd fod a chynhaliad i bentrefi cyfan, ac i draddodiadau a ffordd o fyw. O gofio arwyddocâd y digwyddiad hwnnw mae'r Amgueddfa yn trefnu nifer o weithgareddau yn Awst a Medi eleni i gofio'n briodol y digwyddiad hanesyddol. Mae cryn waith wedi ei wneud eisoes yn casglu tystiolaeth am hanes y cau o bapurau y cyfnod, ac mae'r gwaith o recordio atgofion cynweithwyr ac eraill ar y gweill. Bwriedir hefyd greu straeon digidol yn gysylltiedig â'r digwyddiad ddeugain mlynedd yn ôl a'r effaith a gafodd ar y fro.

Yn y cyfarfod cafwyd apel am gymorth ac enwau eraill a allai gynorthwyo a bu trafod brwd ar gynlluniau posibl, fel Cyngerdd Cofio, teithiau cerdded ac efallai darlithoedd. Mynegwyd cryn ddiddordeb a chefnogaeth gan y cynghorwyr a gofynnodd swyddogion yr Amgueddfa tybed a fyddai'r Cyngor yn medru noddi rhyw ddigwyddiad ynghlwm â'r cofio. Diolchwyd i'r ddau swyddog am eu cyflwyniad a'u brwdfrydedd a chytunwyd i ystyried unrhyw gais am gymorth yn y dyfodol. Dymunwyd yn dda i'r trefnwyr.

Materion yn codi o'r Cofnodion

- Storws, Ffordd Capel Coch: Gorffennwyd y gwaith a phenderfynwyd ail gysylltu y trydan i'r adeilad.

- Glyn Peris, Nantperis: Mae'r safle wedi ei glirio a'i dwtio.

- Byrddau Hysbysebu: Adroddwyd fod pris yr Hysbysfyrddau yn uwch na'r hyn a adroddwyd fis yn ôl, ond penderfynwyd eu prwsau, un ar gyfer Nantperis a'r llall ar gyfer Llanberis, gyda'r bwriad o'u gosod ar dalcen y ddau syngodfan bysiau. Bydd angen holi yn gynnar a'u gosod angen caniatâd cynllunio. Cytunwyd hefyd i glustnodi arian yn y

flwyddyn ariannol nesaf i brynu un arall i'w osod yn Llanberis. Cytunwyd mai hysbysebion yn ymwneud â chymdeithasau a mudiadau gwirfoddol yn unig yn ychwanegol i faterion Cyngor Cymuned Llanberis (CC) gaiff eu cynnwys ar yr hysbysfyrddau.

- Un Llais Cymru: Cyflwynwyd adroddiad gan y Cadeirydd a'r Clerc o Gyfarfod Blyneddol Cangen Gwynedd, lle cafwyd anerchiad pwrpasol ac addysgiadol ar sut i redeg a gweinyddu Cyngor Cymuned yn unol â llythyren y gyfraith. Eglurwyd beth oedd yr anghenion a'r gofynion a sut ac ymhle yr oedd y mwyafrif o gynghorau yn methu. Yn ôl Nick Jenkins, yr Archwiliwr Allanol o gwmni UHY Hacker Young, Caer, mae gan y mwyafrif llethol o gynghorau le i wella a thynhau eu gweinyddiad, yn arbennig ym maes asesu risg, mesur effeithiolrwydd, adolygu rheoliadau ariannol - yn arbennig gosod cyllidebau a sicrhau nad oes lle i dwyll a chamweinyddu. Yn sgil yr adroddiad penderfynwyd ail edrych ar ôl-sustemau ariannol a gweinyddol y Cyngor a'u hadolygu, gan ddechrau gyda'r Rheoliadau Ariannol (Gweler Cofnod Rhif 9).

- Cyfarfod Taclo Blerwch: Cafwyd adroddiad byr gan EB iddo gael ymateb rhagorol i'r cyfarfod a drefnodd i edrych ar flerwch y Stryd Fawr, Llanberis. Bydd symud ymlaen i sefydlu pwyllgor o blith cynrychiolwyr y gwahanol fusnesau i weld beth ellir ei wneud i wella golwg y stryd ac apêl y pentref.

- Defaid Crwydrol: Adroddwyd fod cynnydd wedi bod yn nifer y defaid yn ddiweddar. Bu damwain gas hefyd yn hwyr y nos ar ffordd osgoi Llanberis, lladdwyd dafad, chwalwyd y grocsfan 'pelican' a malwyd car yn ufflon. Roedd y gyrrwr yn lwcus na chafodd ei anafu'n ddifrifol. Yn sgil hyn mae'r heddlu wedi bod yn cysylltu â pherchnogion diadelloedd lleol i ofyn am gymorth i'w cadw o'r pentref.

Bu'r Clerc yn trafod y broblem gyda'r heddlu a Dafydd Morris, y bugail teithiol, sydd bob amser yn barod ei gymorth. Mae'n ymddangos y gallai grid gwartheg ar Stryd Ceunant wncud gwahaniaeth ac mae'n gobeithio trefnu cyfarfod buan cfo'r Cynghorydd Sir ac eraill i drafod y mater.

Cynllunio! CG:

- C09A/0058/15/LL - Codi sied bren un llawr ar gyfer dcfnwyd fel Ystafell Sychu - Glyn

Padarn, Llanberis - Dim gwrthwynebiad

- C09A/0059/15/CR - Newidiadau mewnol i adeilad rhestredig - Glyn Padarn, Llanberis - Dim gwrthwynebiad

- C09A/0085/15/CC - Gwaith tocio, a thorri coed anaeddfed oddi mewn i ardal gyda gorchymyn coed - Chwarel Glyn Rhonwy, Llanberis - Dim gwrthwynebiad

- C09A/0094/15/LL - Codi modurdy un llawr - Llain o dir dros y ffordd i 22, Stryd yr Wyddfa, Llanberis - Dim gwrthwynebiad

CG: Caniatáu:

- C08A/0677/15/CR - Ailosod y cladin llechi o Chwarel Dinorwig presennol gyda cladin llechi o Chwarel Penrhyn - Bryn Eirin, Fron Goch, Llanberis

CG: Gwrthod:

- C08A/0728/15/LL - Ailsefydlu cyn-annedd, gosod system carthffosiaeth a chreu safle parcio - Ty'n y Mynydd, Llanberis.

Materion Ariannol

- Yn y Banc ar yr 28ain o Ionawr 2009:

Cyfrif Cyfredol: £14,052.41

Cyfrif Cadw: £5827.82

Adroddodd y Clerc iddo dderbyn cadarnhad fod yr Archwiliad Allanol wedi ei ddychwelyd, a'i fod yn un glân. Ond roedd nodyn y dylid cynnwys Asesiad Risg, manylion cyllideb ac Adolygiad effeithiolrwydd y tro nesa.

Rheoliadau Cyllidol Newydd

Cyflwynwyd Rheoliadau Cyllidol newydd i'r Cyngor. Roeddynt wedi eu paratoi a'u golygu gan y Clerc gyda cymorth ED a BD. Gyda mân newidiadau derbyniwyd y Rheoliadau newydd. Byddant yn cael eu hadolygu'n flynyddol neu os bydd newid yn y Ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynghorau lleol. Bydd copi o'r Rheoliadau yn y Llyfr Cofnodion ac hefyd ym meddiant pob aelod o'r Cyngor. Cynnig ac eilio: TT/EB.

Ynghlwm â'r rheoliadau newydd trefnwyd fod Mandad Banc newydd i'w gwblhau gyda Iola Owen a Derek Jones i gyd-arwyddo sieciau'r Cyngor gyda'r Clerc, sef y Swyddog Cyllidol Atebol. Cynnig ac eilio: HS/GA. Wedi derbyn nifer sylweddol o geisiadau am fân grantiau i'w trafod y mis ncsaf, adroddodd y Clerc mai dau neu dri mudiad yn unig oedd wedi cyflwyno mantolen ariannol neu gyfriflen banc. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu â'r mudiadau lleol i ofyn am y wybodaeth briodol ac na fyddai unrhyw gymorth ariannol yn cael ei

gynnig heb wybodaeth am gyflwr ariannol y mudiad. Cynnig ac eilio: HS/EB

Llwybrau a'r Fynwent

Adroddwyd fod y fynwent mewn cyflwr derbyniol, ac nad oedd unrhyw gerrig coffa mewn cyflwr peryglus.

Cafwyd adroddiad gan y Clerc fod y gwaith o uwch raddio Llwybr Rhif 1, Capel Hebron - Cwm Aelir Ucha' wedi dechrau. Yn dilyn trafodaeth â Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd cafwyd addewid am fynegbyst i gadw cerddwyr ar y llwybr. Bydd y CC yn talu am eu gosod! Cynhaliwyd trafodaeth hefyd â pherchennog Cwm Aelir Ucha' er mwyn sicrhau ei fod yn hapus â chyfeiriad y llwybr heibio'r tŷ. Mae disgwyl y bydd y gwaith wedi ei gwblhau yn fuan.

Adroddwyd fod gwaelod llwybr y Sig Sag yn Gilfach Ddu yn beryglus, ond adroddodd y Clerc nad oedd y llwybr yng nghymuned Llanberis. Byddai serch hynny yn cysylltu â Chlerc Llanddeiniolen.

Gohebiaeth

1. Gwarchod Trefniadau i Ddarparu Gwasanaeth Claddu: Llythyr yn nodi fod angen gwneud trefniadau rhag ofn afiechyd megis fflw byd eang.

2. Llywodraeth y Cynulliad: llythyrau yn ymwneud â gwario ar les y gymdeithas a mudiadau, ynghyd â chanllawiau benthyca i gynghorau lleol.

3. Un Llais Cymru: Gwahoddiad i anfon enw'r Cadeirydd i'w ystyried ar gyfer Garddwest Plas Buckingham - dim diddordeb.

4. Un Llais Cymru: Gwahoddiad i gynghorwyr fynychu Cwrs. ED y Cadeirydd i fynd iddo ar ddydd Mercher y 4ydd o Fawrth, 6 - 9yh.

5. Cyngor Gwynedd: Gorchymyn Cyngor Gwynedd, Mannau Parcio oddi ar y Stryd.

Unrhyw Fater Arall

- Aelodaeth SLCC - Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol: Cytunwyd i dalu tâl aelodaeth y Clerc ar gyfer y Gymdeithas.

- Dŵr ar y ffordd, ger Coed Gwydr, Nantperis: Wrth i'r waliau gael eu hail adeiladu mewn perthynas â'r llwybr o'r pentre i Gwastadnant adroddwyd fod mwy o ddwr nag arfer wedi bod ar y ffordd, holwyd hefyd a wnaed unrhyw waith i atal llifogydd ger Gardda Bach.

- Gyrru Stryd Ceunant: Adroddwyd fod angen gwneud rywbeth i dawelu'r drafnidiaeth ar y ffordd yma, dywedwyd fod ceir yn gyrru ar y ffordd i lawr.

Cyfarfod Ncsaf

Gwesty Victoria nos Iau y 19eg o Fawrth, 2009 am 7 yr hwyr.

Ar Ben Arall y Lein

Ar drothwy tymor newydd derbynais adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar ganlyniad astudiaeth ar ddefnydd peiriant DIDSON ar afon Hwch yn ystod diwedd 2008. Ceisio cael rhyw amcan ar beth yw lefel stoc torgoch Padarn oedd y dasg. Mae'r peiriant yma yn gallu cyfri a hefyd gymryd lluniau o be sy'n digwydd dan wyneb y dyfroedd. Dros ychydig ddyddiau fe recordiodd y peiriant dros 4,000 o dorgoch yn symud yn ôl ac ymlaen ar y gwllau claddu, yn ogystal â hyn fe gafwyd cofnod o 30 o Eogiaid yn llwybro eu ffordd am Nant Peris. Bydd gwaith eto yn cael ei gario allan yn ystod Tachwedd a Rhagfyr eleni, gwybodaeth ardderchog, mae pethau yn edrych yn dda am y dyfodol.

Yn ogystal â hyn, ar y Gwyrfa'i mae effeithiolrwydd y llwybr pysgod sy'n arwain i Lyn Cwellyn wedi bod o dan y microscop o'r diwedd, ac yn ôl be dwi'n glywed, nid yw'n cyflawni ei bwrpas o gwbwl. Wrth gwrs, rydym ni fel 'sgotwrs yn gwybod am hyn, ac wedi bod yn cwyno ers blynnyddoedd maith. Ond gwell hwyr na hwyrach. Mae'r sibrydion yn dweud fod Dwr Cymru â'i fryd ar wella'r sefyllfa, cawn weld.

Yn ystod y gwaith monitro 'ma fe welwyd anferth o frithyll brown yn stelcian o amgylch argae'r Llyn. Daw hyn ag atgofion am ddau frithyll enfawr yn cael eu dal rai blynnyddoedd yn ôl, - roedd un, a ddaliwyd gan John Jones, Bethel, gyda thorgoch saith modfedd hanner ffordd i lawr ei wddf.

Er y bydd yr afonydd yn agor ar y 3ydd o Fawrth, araf iawn fydd pethau nes i'r tywydd dechrau cynhesu, felly am Lyn Padarn y bydd yn rhaid anelu os am gyfle rhesymol o helpa. Os bydd rhyw ychydig o wynt yna allan ar y cwch amdani - dyna fydd fy mhleser i. Ond i lawer fydd yn ymdrechu oddi ar y glannau, dyma'r cyfle gorau i gael torgoch cynnar, ac mae un o'r rhain yr amser yma o'r flwyddyn yn wled arbennig.

Fel y daw Ebrill i dro, bydd rhaid hel ein hunain am Lyn Dywarchen. Y polisi stocio eleni fydd 200 i mewn yn ystod wythnos olaf Mawrth yn barod am yr agoriad ar laf. Ebrill, yna 200 bob mis wedyn hyd at ddiwedd Awst.

Felly dyna ni am y tro, amser cael y gŵr at ci gilydd a mawr y disgwyliad am y 3ydd.

Huw Price Hughes

TÎM ACHUB MYNYDD LLANBERIS

Mae tîm achub mynydd Llanberis wedi cael un o'u cyfnodau prysuraf erioed yn ystod y gwanwyn yma. Ac er mwyn tynnu sylw at waith y tîm bu'r rhaglen deledu Mosgito yn ffilmio gyda nhw yn ddiweddar.

Fe gafodd dau o Fethel, Aaron Gwyn a Gwilym Rhys, y ddau yn ddisgyblion yn Ysgol

Brynrefail, gyfle i ffilmio gyda'r tîm achub gan ymarfer achub rhywun oedd wedi troi ei ffêr ar y mynydd. Roedd eu gwaith yn cynnwys cario'r dyn i lawr y mynydd ar stretcher a'i gludo i fan ble ddaeth hofrennydd o'r Fali i'w nôl o. Bydd yr eitem i'w weld ar Mosgitio ar S4C ar ddiwedd mis Mawrth



Hofrennydd yn glanio gyda'r tîm achub, yn cynnwys Aaron a Gwilym, yn disgwyl.



Aaron a Gwilym yn helpu cario'r stretcher.



Aaron a Gwilym yn ffilmio'r tîm achub.

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1008851 • Gofrestredig yng Nghymru • Cwmni Cyfnyddig drwy Warant 3420271

Gall amrywiaeth o chwaraeon dderbyn nawdd - o rygbi a beicio i glwb achub bywyd a sefydlu clwb pêl-fasged newydd.

Dyweddodd Elwyn Jones, Prif Swyddog Datblygu Chwaraeon Cyngor Gwynedd: 'Rydym yn falch iawn fod cymaint o glybiau a sefydliadau lleol yn gallu gwneud y mwyaf o gefnogaeth ariannol cronfa Sportlot. Mae'r ystod eang o glybiau a chymdeithasau fydd yn derbyn arian yn adlewyrchiad o'r cyfoeth cyfleon sydd ar gael i drigolion Gwynedd. Ein nod yn syml yw sicrhau fod pobl ledled y sir yn gallu elwa ar gyfleon ar gyfer gweithgareddau corfforol a chwaraeon o'r safon orau yn eu clwb lleol.'

Mae'r clybiau fu'n llwyddiannus yn y rownd ddiweddaraf o arian Sportlot yn cynnwys Clwb Ieuencid Llanrug - i ariannu hyfforddwyr a darparu dillad ac offer ar gyfer sesiynau dawns newydd ac ychwanegol a fydd yn cynnig cyfleon i blant gymryd rhan mewn sesiynau dawns ychwanegol.

Y dyddiadau ar gyfer cyflwyno ceisiadau arian Sportlot ar gyfer 2009-2010 yw: - 16 Mawrth 2009 gyda cheisiadau i'w hystyried mewn cyfarfod ar 6 Ebrill 2009-11 Mai 2009 gyda cheisiadau i'w hystyried mewn cyfarfod ar 1 Mehefin 2009-22 Mehefin 2009 gyda cheisiadau i'w hystyried mewn cyfarfod ar 13 Gorffennaf 2009-17 Awst 2009 gyda cheisiadau i'w hystyried mewn cyfarfod ar 7 Medi 2009-12 Hydref 2009 gyda cheisiadau i'w hystyried mewn cyfarfod ar 2 Tachwedd 2009-11 Ionawr 2010 gyda cheisiadau i'w hystyried mewn cyfarfod ar 1 Chwefror 2010 Mae ffurflenni cais ar gyfer

Cist Gymunedol Sportlot ar gael gan Jane Eade ar (01758) 704 010.

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswariant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

CHWARAEON

PENCAMPWYR HOCI

Diolch i Llinos Williams, hyfforddwr tîm dan 15 hoci Caernarfon am y newyddion diweddaraf am lwyddiant y tîm. Mae'r tîm yn gymysgedd o enethod o Ysgol Brynrefail ac Ysgol Syr Hugh Owen. Fel eu cyfoedion yng nghlwb rygbi Caernarfon, mae'r genethod yn elwa o strwythr hyfforddi cadarn ar gyfer y clwb. Mae'r merched yn cyfarfod ar nos Fercher ar faes pob-tywydd Ysgol Brynrefail. Mae croeso i unrhyw ferch dros oed Bl. 7 sydd â diddordeb i ddod draw. Mae hyfforddwyr profiadol wrth law a rhoddir pwyslais mawr yn y sesiynau i gael y cydbwysedd angenrheidiol o

feithrin sgiliau, magu teimlad o dîm ac, wrth gwrs, mwynhad.

Yn ddiweddar bu'r tîm yn cystadlu am dlws RAF Gogledd Cymru. Gyda pherfformiadau cyson, llwyddwyd i gipio'r tlws. Byddent nawr yn cyfarfod â phencampwyr y de i ymgiprys am Bencampwriaeth Cymru. Yn oedran yr oedolion mae'r clwb yn rhedeg dau dîm yng Nghynghrair Gogledd Cymru - yn wir maent ymysg timau ieuengaf y gynghrair. Gyda strwythr bendant o reoli a hyfforddi mewn modd bositif a phwrpasol - a chydag ambell lwyddiant - rwy'n siŵr bod seiliau cadarn i'r clwb ar gyfer y dyfodol.



GWAHODDIAD I AD-UNIAD

Cefais gais ar ran un o fy hen glybiau i hysbysebu aduniad y clwb yn 40 mlwydd oed eleni. Y clwb dan sylw yw clwb y Cymric yng Nghaerdydd. Ers ei sefydlu yn 1969 bu nifer ohonom o Wynedd - ac yn wir o Bro'r Eco - yn cynrychioli'r clwb. Bu'n ffordd dda i gael aelwyd gyfforddus i nifer ohonom oedd yn gadael cartref am y tro cyntaf, boed i goleg neu waith. Erbyn hyn mae'r tîm cyntaf yn Uwch adran Cynghrair Caerdydd. Chwaraeir eu gemau fel arfer ar feysydd Pontcanna, ond oherwydd effaith y 'Steddfod' yno llynedd mae tipyn o gemau i'w hail drefnu ganddynt, ond gyda gobaith da o fod yn y pedwar uchaf. Tîm o hogiau 'dw'ad' oedd y mwyafrif ohonom yn y blynyddoedd cynnar, gyda chryn gysylltiad â'r BBC. Erbyn heddiw mae nifer o'r aelodau wedi eu geni yn y

brifddinas a'i chyffiniau. Mae hyn yn ateb y freuddwyd o gynnal clwb drwy'r iaith Gymraeg yn y brifddinas, ac yn brawf pendant o dwf y Gymraeg yno. Cynhelir yr aduniad ar ddydd Sadwrn, Mai 9ed, yn lolfâ stadiwm criced SWALEC yng Ngherddi Soffia, Caerdydd. I'r hyddysg, rownd y gornel o'r Mochyn Du. Yn wir mae Gareth Hughes, perchennog y Mochyn Du yn gyn-chwaraewr o'm cyfnod i. I'r rhai ohonoch fu yno, fe allwch weld lluniau o'r clwb ar y mur.

Pris y tocyn, yn cynnwys bwyd, adloniant a sawl stori atgofus yw £30.

Gellir eu harchebu drwy gysylltu ag ysgrifennydd y clwb, Rhys Meilir Davies ar 07775 992673, neu clwbeymric@hotmail.co.uk. Dylai fod yn noson dda.

HAELIONI LLEOL



Y BEDOL
EXCELLENT FOOD - TRADITIONAL ALES

Mae pwyllgor C.P. Bethel yn gwerthfawrogi cyfraniad Mr. Kelsi a'u deulu o'r Bedol, Bethel, dros y tymor. Mae'r croeso - a'r lluniaeth - yn dwym yn wastad. Yn ddiweddar dangosodd y teulu eu gwerthfawrogiad hwy o gefnogaeth y clwb drwy gyfrannu set o ddillad ymarfer i'r tîm hyn. Gwelir Mr. Kelsi a'i fab, Beejay, yn cyflwyno'r dillad i Irfon Hughes, y capten.

Yn anffodus bu Bethel yn rhy hael ar y cae yn ddiweddar yn rownd wyth olaf Cwpan Ganolradd Gogledd Cymru. Wedi chwalu Gwalchmai o 5-1 bythefnos ynghynt mewn gêm gynghrair, collwyd o 5-3 ar Gae Goed Bolyn yn y cwpan. Tipyn o siom fu hyn, gan fod arwyddion fod enw'r hogiau ar y cwpan eleni. Di-fflach fu'r perfformiad, gyda dwy gôl hwyr yn rhoi awgrym o gêm glos. Ni fu problem sgorio goliau trwy'r tymor. Yn mentro ymlaen, mae'r tîm cystal ag unrhyw dîm arall yn y gynghrair. Yn yr agwedd yma mae gwendid hefyd. O golli'r bêl nid yw trefn amddiffynnol ganol y cae cyn sicred. Yn erbyn y timau gwell mae hyn yn rhoddi gormod o bwyslais ar y pedwar yn y cefn.

Un elfen gadarnhaol eleni yw oed y tîm. Mae sawl un ifanc

wedi cael cyfle, ac wedi chwarae eu rhan ac mae ysbryd da ymysg y garfan. Tu cefn i hyn mae pwyllgor gweithgar, a rhaid eu canmol am eu gweledigaeth. Mae'r ystafelloedd newid yn safonol iawn, cyflwr y maes yn dderbyniol, a'r siop a'i phaned o safon uchel! Yn sicr, nid clwb sefyll yn llonydd sydd yma. Da gweld hefyd mwy o'r pentrefwyr erbyn hyn yn mentro draw i gefnogi.

Un sydd yn denu sylw yw Jamie Whitmore sydd wedi sgorio dros 30 gôl eisoes y tymor yma. Gyda rhyw 15 gêm ar ôl mae ganddo gyfle da i sgorio 50 - tipyn o gamp i chwaraewr ifanc. Yr hyn sy'n rhyfeddol am gamp Jamie yw bod nifer o'i goliau yn gofiadwy. Nid 'poacher' yn null Greaves mohono. Yn aml mae'n taro'r rhwyd o 20 llath, neu yn rhedeg pellter gan guro amddiffynwyr ar y ffordd. Mae'n hyderus ac yn gryf ar y bêl. Darganfyddiad yn wir. Gyda gemau mewn llaw, gobeithio y gall Jamie danio Bethel i safle yn y pedwar uchaf eleni, a cheisio ymuno â Llanberis a Llanrug yn y Gynghrair Alliance mewn dwy flynedd. Mae'r ddau dîm hynny yn gyfartal ar bwyntiau ar hyn o bryd. Pwy fydd prif dîm Bro'r Eco ar ddiwedd y tymor sgwn i?

A DDAETH LLWYDDIANT?

Pan roddwyd microffon S4C o dan fy nhrwyn tu allan i Stadio Flaminio rwy'n siŵr fy mod yn adlewyrchu teimladau nifer o gefnogwyr. A oedd Gatland wedi gwneud gormod o newidiadau? A oedd ein pac o fechgyn oedd yn 'chwarae am eu lle' yn ddigon cryf ac yn gallu gwrthsefyll y pwysau seicolegol? Cawsom ein hateb mewn perfformiad annisgybledig, gyda ymddangosiad hwyr y 'gynnau mawr' yn ein hachub. Ymddengys felly nad yw'r dyfnder talent ar y lefel uchaf yn ddwfn iawn. Her i Gatland a'i griw, yn sicr. Dewiswyd y tîm cryfaf yn erbyn y Gwyddelod ac, erbyn hyn, byddwn yn gwybod y canlyniad. Gem o ennill - neu cholli - popeth i un o'r timau. Gair i orffen am gefnogaeth anhygoel Cymru. Gyda'r Ewro yn gryf roedd yn gostus iawn, ond roedd y miloedd 'coch' yno - yn sicr tua hanner y dorf. Pe buasai Cymru yn chwarae yn uffern, rwy'n siŵr y buasen nhw yno!

Hwb ariannol i naw o glybiau chwaraeon Gwynedd

Mae naw o glybiau a sefydliadau chwaraeon Gwynedd am elwa ar hwb ariannol gwerth bron i £7,000 trwy gronfa Cist Cymunedol Sportlot y sir.

Gall sefydliadau chwaraeon elwa o hyd at £1,000 trwy gronfa Cist Cymunedol Sportlot Cyngor Gwynedd.